# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

Cyhoeddwyd gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Cyngor Sir Ddinbych,

Tîm Trwyddedu, Bwlch Post 62, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 9AZ.

www.sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 706342

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

### Cynnwys


1. Gweithredwyr Cerbyd Hurio Preifat

2. Polisi Cerbydau Hurio Preifat

3. Manyleb Cerbyd Hurio Preifat

4. Amodau Cerbyd Hurio Preifat

5. Polisi Cerbyd Hacni

6. Manyleb Cerbyd Hacni

7. Amodau Cerbyd Hacni

8. Gorsafoedd profi Dynodedig

9. Amodau Arbennig ar gyfer trwyddedu mathau penodol o gerbydau (limwsinau, offer tân, cerbydau arbenigol)

10. Amodau TTC

11. Amodau Trwyddedu gyrwyr Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat

12. Cod gwisg ar gyfer gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat

13. Cod Ymddygiad Da ar gyfer Gyrwyr Trwyddedig

14. Amodau Trelar ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat

15. Polisi defnydd bwriadedig ar gyfer Cerbydau Hacni

16. Safonau meddygol i yrwyr

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

# Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## Gweithredwyr Cerbyd Hurio Preifat

COFNODION

1.1 Bydd y cofnodion y mae'n ofynnol i'r Gweithredydd eu cadw dan adran 56(2) y Ddeddf, yn cael eu cadw:

a) Mewn llyfr addas os ar ffurf copi caled, â'r tudalennau wedi eu rhifo yn ddilynol; neu
b) Ar gyfrifiadur, a rhaid argraffu gwybodaeth yn ddyddiol neu gadw copi electronig wrth gefn ar wahân.

1.2 Bydd y Gweithredydd yn nodi, neu'n trefnu nodi'r manylion isod, cyn cychwyn pob taith, yn ymwneud â bwcio'r cerbyd hurio preifat a wahoddwyd neu a dderbyniwyd ganddo, p'un ai y darparwyd y cerbyd hurio preifat gan y Gweithredydd ai peidio.

a) Dyddiad ac amser bwcio'r cerbyd
b) Enw'r sawl sy'n hurio
c) Sut y gwnaed y trefniadau (galwad ffôn, galw heibio ac ati)
d) amser casglu'r teithiwr
e) lleoliad casglu'r teithiwr
f) y gyrchfan
g) rhif trwydded y cerbyd a ddynodwyd i gyflawni'r gwaith
h) rhif trwydded ac enw'r gyrrwr a ddynodwyd i gyflawni'r gwaith
i) sylwadau, yn cynnwys manylion am unrhyw is-gontract os yw'n briodol

1.3 Rhaid i'r Gweithredydd gadw'r holl gofnodion am o leiaf 6 mis.

1.4 Bydd y Gweithredydd yn cadw copïau o'r holl drwyddedau cerbyd hurio preifat a gyhoeddwyd gan y Cyngor sy'n gweithredu dan drwydded y Gweithredydd.

1.5 Rhaid i'r Gweithredydd gadw copi o drwydded gyrru cerbydau hurio preifat pob gyrrwr a gyflogir, a chadw'r drwydded nes nad yw'r gyrrwr yn cael ei gyflogi mwyach. Rhaid rhoi'r copi o'r drwydded yn ôl i'r gyrrwr bryd hynny.

1.6 Rhaid cyflwyno'r holl gofnodion os yw swyddog awdurdodedig neu swyddog heddlu yn gofyn am eu gweld.

COLLFARNAU

1.7 Rhaid i'r Gweithredydd ddatgelu i'r Cyngor, yn ysgrifenedig, o fewn 7 diwrnod, unrhyw gollfarn a gafodd (neu os yw'r gweithredydd yn gwmni neu bartneriaeth, unrhyw gollfarn a gafodd unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded hon.

NEWID CYFEIRIAD

1.8 Rhaid i'r Gweithredydd hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw newid yn ei gyfeiriad personol, cyn pen 7 diwrnod o newid cyfeiriad.

1.9 Bydd y Gweithredydd yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau arfaethedig i leoliad y ganolfan weithredu, o leiaf 21 diwrnod cyn i unrhyw newid ddigwydd.

CANIATÂD CYNLLUNIO AC UNRHYW GANIATÂD ARALL

1.10 Ni roir trwydded Gweithredydd nes bo::-

a) Unrhyw ganiatâd cynllunio neu unrhyw ganiatâd arall sy'n ofynnol wedi'i dderbyn gan y Cyngor, a thystiolaeth o hynny wedi'i gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a Rheoleiddio.
b) Unrhyw drwydded sy'n ofynnol o ran offer radio wedi'i rhoi gan yr Asiantaeth Radiogyfathrebu.
c) Y broses datgelu cofnodion troseddol wedi'i chyflawni yn foddhaol.

GWASANAETH

1.11 Bydd y Gweithredydd yn darparu gwasanaeth prydlon, effeithlon a dibynadwy i'r cyhoedd ar bob adeg rhesymol a bydd yn sicrhau, pan fo cerbyd hurio preifat wedi'i logi i fod yn bresennol mewn lle penodol ar amser penodol, y bydd y cerbyd yno'n brydlon, onibai eu bod yn cael eu hoedi neu eu hatal gan achos digonol.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

SAFLE GWEITHREDU

1.12 Bydd y Gweithredydd yn cadw unrhyw safle y mae'r cyhoedd yn cael ei ddefnyddio, p'un ai ar gyfer bwcio cerbyd neu aros am gerbyd, yn lân, wedi ei oleuo a chyda llif awyru digonol. Rhaid i'r gweithredydd sicrhau bod cyfleusterau eistedd digonol mewn unrhyw ardal aros.

1.13 Rhaid i'r Gweithredydd sicrhau bod unrhyw gyfleusterau ffôn ac offer radio a ddarperir yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da, a bod unrhyw nam yn cael ei drwsio ar unwaith.

CWYNION

1.14 Rhaid i'r Gweithredydd hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ar unwaith am unrhyw gwynion a gyflwynwyd yn uniongyrchol iddo ynghylch contract i hurio neu gontract arfaethedig i hurio yn ymwneud â neu'n deillio o'i fusnes, a'r camau gweithredu y mae'r Gweithredydd wedi'u dilyn neu y mae'n bwriadu eu dilyn yng nghyswllt y cwynion. Yn achos cwynion a gyflwynir yn uniogyrchol i'r Cyngor rhaid i'r Gweithredydd ymateb iddynt gyda hysbysiad tebyg cyn pen 7 diwrnod ar ôl ei hysbysu am y cwynion.

FFIOEDD

1.15 Bydd y gweithredydd yn sicrhau bod copi o'r raddfa ffioedd gyfredol a godir yn cael ei arddangos ymhob cerbyd trwyddedig a weithredir ganddo, mewn modd sy'n glir a darllenadwy i deithwyr yn y cerbyd.

1.16 Bydd y gweithredydd yn sicrhau bod y raddfa ffioedd yn 1.15 uchod yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor gynted ag y bo'r raddfa ffioedd yn dod i rym.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 2. POLISI CERBYDAU HURIO PREIFAT

2.1 CYFYNGIAD O RAN NIFEROEDD

2.1.1 Nid oes grymoedd yn bodoli i Awdurdodau Trwyddedu gyfyngu ar nifer y Cerbydau Hurio Preifat maen nhw'n eu trwyddedu.

2.2 MANYLION AC AMODAU

2.2.1 Mae gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn ystod eang dros y mathau o gerbydau y gallant eu trwyddedu fel cerbydau Hurio Preifat. Mae canllawiau'r Llywodraeth yn awgrymu y dylai awdurdodau trwyddedu lleol fabwysiadu'r egwyddor o ddynodi cynifer o wahanol fathau o gerbydau â phosibl a'u hannog i ddefnyddio'r rheolau "cymeradwyaeth o ran mathau" o fewn unrhyw fanylion y penderfynant arnynt. Yn unol â hynny, bydd y Cyngor yn gofyn am Gymeradwyaeth Math o Gerbyd Cyfan Ewropeaidd ar gyfer pob cerbyd newydd a drwyddedir.

2.2.2 Bydd yr Awdurdod yn gosod amodau, fel y mae'n ystyried eu bod yn rhesymol ar drwyddedau cerbydau Hurio Preifat. Mae'r cerbydau hyn yn cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd, felly mae'n briodol gosod meini prawf ar gyfer safon cyflwr allanol a mewnol y cerbyd, ar yr amod nad yw'r rhain yn afresymol o feichus.

2.2.3 Mae Atodiad 1(a) yn gosod y fanyleb a'r safonau gofynnol mewn perthynas â Cherbydau Hurio Preifat.

2.2.4 Rhaid i gerbydau allu cario o leiaf pedwar a dim mwy nag wyth teithiwr, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r fanyleb sy'n berthnasol i'r cerbydau hynny.

2.3 HYGYRCHEDD

2.3.1 Mae'r Awdurdod yn llwyr gefnogi safbwynt y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sef,

"mae gwneud teithiau llwyddiannus yn hanfodol i gynhwysiant cymdeithasol pobl anabl. Heb y gallu i deithio, ni chaiff pobl anabl fynediad i gyfleoedd bywyd. Caiff eu mynediad i

addysg, siopa, cyflogaeth, gofal iechyd, yn  ogystal â bywyd cymdeithasol a theuluol ei wella'n sylweddol pan fydd modd mynd ar deithiau"

2.3.2 I'r perwyl hwn, ystyria'r Awdurdod ei bod hi'n bwysig fod pobl gydag anableddau'n cael mynediad i bob math o gludiant cyhoeddus ac yn annog Gweithredwyr Hurio Preifat a gyrwyr i ddefnyddio cerbydau a fydd yn cynorthwyo'r teithwyr hynny gydag anawsterau symudedd.

2.3.3 Mae gan yrwyr Tacsis Trwyddedig ddyletswydd dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 i gario cŵn tywys, clyw a chymorth rhagnodedig eraill yn eu cerbydau heb ffi ychwanegol. Gall gyrwyr a chanddynt gyflwr meddygol sy'n cael ei waethygu o gael eu hamlygu i gŵn wneud cais i Gyngor Sir Ddinbych am eithriad o'r ddyletswydd am resymau meddygol. Gallai unrhyw yrrwr arall sy'n methu cydymffurfio â'r ddyletswydd hon gael ei erlyn trwy lys Ynadon a fyddai'n atebol i ddirwy a gallai gael ei ystyried yn unigolyn nad yw'n addas ac yn briodol i feddu ar drwydded Cerbyd Hacnai neu Yrrwr Hurio Preifat. Gellir dod o hyd i ragor o arweiniad ar y mater hwn ar wefan yr Adran Gludiant https://www.gov.uk/transport-disabled/taxis-and-minicabs

2.4 UCHAFSWM OEDRAN CERBYDAU

2.4.1 Bydd yr Awdurdod yn ystyried pa mor bell y gall ac y dylai ei Bolisi gefnogi unrhyw fenter amgylcheddol leol a mentrau i'r dyfodol, fel gosod safonau gollyngiadau cerbydau neu hyrwyddo tanwydd glanach, yn ogystal â sicrhau safon fodern ei gerbydau trwyddedig.

2.4.2 Rhaid i bob cerbyd a drwyddedir dan gais newydd fod hyd at uchafswm o 5 mlwydd oed o ddyddiad y cofrestriad cyntaf ac, os yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer y drwydded, bydd felly'n cael caniatâd i adnewyddu trwydded cerbydau hyd at 12 oed dim ond o ddyddiad y cofrestriad cyntaf, lle mae'n rhaid i'r cerbyd trwyddedig gael ei ddisodli gydag un o uchafswm oedran o hyd at 5 mlynedd o ddyddiad y cofrestriad cyntaf. Mae hyn yn berthnasol hefyd i unrhyw gerbyd sy'n cael ei drosglwyddo/disodli neu sydd wedi bod yn rhan o wrthdrawiad traffig ar y ffordd.

2.4.3 Bydd gan bob cerbyd trwyddedig presennol “hawliau tad-cu” am 5 mlynedd ar ôl gweithredu’r polisi hwn, erbyn hynny, rhaid i bob cerbyd trwyddedig presennol allu cydymffurfio â 2.4.2 uchod e.e. rhaid i bob cerbyd trwyddedig 12 oed neu’n hŷn, o ddyddiad y cofrestriad cyntaf, fod wedi’i ddisodli gydag un o uchafswm oedran o hyd at 5 mlynedd o ddyddiad y cofrestriad cyntaf. Bydd hyn ond yn berthnasol i gerbydau trwyddedig sydd wedi cael trwydded ddi-dor. Bydd cerbydau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu cyn dyddiad dirwyn i ben y drwydded bresennol yn cael eu trin fel cerbyd newydd a bydd 2.4.2 uchod yn berthnasol.

2.5 PROFI CERBYDAU

2.5.1 Cyn rhoi trwydded, bydd pob cerbyd yn cael ei archwilio a’i brofi mewn gorsaf brofi ddynodedig wedi’i chymeradwyo gan yr Awdurdod.

2.5.2 Defnyddir cerbydau Hurio Preifat at ddibenion gwobrwyo ac yn hynny o beth maen nhw’n destun milltiroedd blynyddol llawer uwch a gyrru mwy llafurus na cherbydau preifat arferol. Felly, er lles diogelwch teithwyr a defnyddwyr eraill y ffordd, mae angen cyfundrefn cynnal a chadw a phrofi llymach. Mae’r Datganiad Polisi hwn yn ystyried y Llawlyfr archwiliad MOT ar gyfer Profion Ceir a Cherbydau Masnachol Ysgafn a gyhoeddir gan DVSA fel safon archwilio sylfaenol ar gyfer cerbydau Hurio Preifat. Fodd bynnag, yn ogystal â safonau’r DVSA, mae’n ofyniad i bob cerbyd gydymffurfio â Safonau Archwilio Cerbydau Hacnai a Hurio Preifat y Cyngor. Felly, wrth asesu cyflwr mecanyddol cerbyd, mae’n bosibl y gallai nodyn ymgynghorol MOT fethu safonau profi’r Cyngor.

2.5.3 Pwrpas y prawf cerbydau Hurio Preifat yw cadarnhau bod cerbydau’n bodloni’r safonau llymach sy’n cael eu gosod yn y Datganiad Polisi hwn. Rhaid i gerbydau gael eu cyflwyno’n gwbl barod am y prawf. Ni fwriedir i’r prawf gael ei ddefnyddio yn lle rhaglen cynnal a chadw ataliol rheolaidd. Mae’n drosedd dan Reoliadau Adeiladu a Defnyddio Cerbydau 1986 i ddefnyddio cerbyd anaddas i’r ffordd ar y briffordd gyhoeddus. Mae gyrwyr/gweithredwyr Hurio Preifat sy’n methu cynnal eu cerbydau trwyddedig mewn cyflwr diogel ac addas i’r ffordd fawr gael eu trwydded(au) wedi’u gwahardd dros dro, neu eu dirymu gan y Cyngor.

2.5.4 Mae'r diagram canlynol (ffig 1) yn crynhoi'r gyfundrefn brofi ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat:

OEDRAN Y CERBYD (o ddyddiad y cofrestriad cyntaf) NIFER Y PROFION MOT/CYDYMFFURFIAETH LLEOLIAD Y PRAWF

POB CERBYD NEWYDD I'R FFLYD (waeth beth yw eu hoedran)1x Prawf MOT a Chydymffurfiaeth bob 6 mis

Bydd MOT a Chydymffurfiaeth Gychwynnol yn digwydd yng Ngwasanaethau Fflyd y Sir

Bydd pob Cydymffurfiaeth bellach (hyd at 5 mlynedd) yn digwydd mewn unrhyw Orsaf Brofi Ddynodedig

Cerbydau Trwyddedig dan 5 mlwydd oed 2x Prawf MOT a Chydymffurfiaeth bob 6 mis

Mewn unrhyw Orsaf Brofi Ddynodedig

Cerbydau Trwyddedig 5 mlwydd oed neu'n hŷn a hyd at 12 mlwydd oed 2 x Prawf MOT a Chydymffurfiaeth bob 6 mis 1 mewn Gwasanaethau Fflyd ac 1 mewn unrhyw Orsaf Brofi Ddynodedig

Ffig 1

2.5.5 Gallai cerbydau a gyflwynir am eu profion MOT a Chydymffurfiaeth mewn cyflwr a fyddai'n arwain at fethiant fod yn destun unrhyw ffi ail brawf berthnasol, a fydd yn cael ei phenderfynu gan yr Orsaf Brofi Ddynodedig.

2.5.6 Nid yw'r gyfundrefn archwilio ar gyfer cerbydau wedi'i dylunio er mwyn creu anawsterau i'r busnes Cerbydau Hacnai a Hurio Preifat, ond er mwyn hyrwyddo diogelwch cerbydau a'r ffordd. Felly, ystyria'r Cyngor fod y gofynion archwilio'n gyfiawn yn ôl y risgiau mae'n anelu at fynd i'r afael â nhw.

2.5.7 Mae gan unrhyw Swyddog Cyngor awdurdodedig neu unrhyw Gwnstabl Heddlu'r grym ar bob adeg resymol i archwilio a phrofi at ddiben cadarnhau addasrwydd unrhyw gerbyd Hurio Preifat a drwyddedir gan Sir Ddinbych. Os teimla'r Swyddog fod y cerbyd

trwyddedig yn anaddas i'w ddefnyddio fel cerbyd Hurio Preifat, neu fod y cerbyd trwyddedig yn torri'r ddeddfwriaeth tacsis neu Bolisi ac Amodau Trwyddedu'r Cyngor, gallai'r drwydded gerbydau gael ei gohirio, ei dirymu neu beidio â chael ei hadnewyddu.

2.6 ARWYDDION / HYSBYSEBU / LIFRAI

2.6.1 Mae'n bwysig y dylai'r cyhoedd allu adnabod a deall y gwahaniaeth rhwng Cerbyd Hacnai a cherbyd Hurio Preifat. Ni fydd cerbydau Hurio Preifat yn arddangos arwyddion o unrhyw ddisgrifiad ar y to.

2.6.2 Mae platiau adnabod cerbyd yn nodwedd allweddol wrth helpu adnabod cerbydau a drwyddedir yn briodol. Bydd pob cerbyd trwyddedig, ac eithrio'r cerbydau Hurio Preifat hynny y rhoddwyd eithriad iddynt gan yr Awdurdod yn dangos platiau ar gefn y cerbyd (cyfeiriwch at Adran 13 Atodiad 1(a)).

2.6.3 Bydd cerbydau Hurio Preifat yn arddangos arwyddion drysau, a gyhoeddir gan y Cyngor ac sy'n cael eu ffitio fel y gosodwyd yn amodau'r drwydded.

2.6.4 Ni fydd Cerbydau Trwyddedig yn cael eu caniatáu i arddangos unrhyw ysgrifen neu ddeunydd arall ar unrhyw ffenestr ac eithrio'r rhai a ganiateir yn ôl amodau'r drwydded.

2.6.5 Ni fydd cerbydau Hurio Preifat yn cael caniatâd i arddangos na hysbysebu deunydd ysgrifenedig neu ddeunydd arall ar ei gorff.

2.7 DIOGELWCH / TCC

2.7.1 Mae'r busnes Hurio Preifat yn cynnig gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr, yn enwedig yn hwyr yn y nos pan na fydd mathau eraill o gludiant cyhoeddus ar gael. Mae diogelwch i yrwyr a theithwyr yn hollbwysig. Gall teledu cylch caeedig (TCC) fod yn werthfawr wrth atal yn ogystal ag er mwyn amddiffyn gyrwyr rhag cwynion anghyfiawn.

2.7.2 Ni chynigir y dylai fod angen mesurau fel TCC, fel rhan o'r gyfundrefn drwyddedu, oherwydd ystyrir y dylid gadael y farn honno i'r perchnogion a'r gyrwyr eu hunain.

2.7.3 Wrth alluogi'r gwaith o osod a defnyddio TCC, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellir defnyddio'r systemau hynny i atal a chanfod troseddau, lleihau'r ofn o drosedd a gwella

diogelwch gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat, yn ogystal â’u teithwyr. Fodd bynnag, ceisia’r polisi hwn hefyd sicrhau nad yw’r gwaith o osod a gweithredu systemau TCC yn cyfaddawdu diogelwch naill ai’r gyrwyr na’r teithwyr nac ymyrryd yn afresymol â phreifatrwydd aelodau’r cyhoedd.

2.7.4 At ddibenion y polisi hwn, bydd system TCC yn cynnwys cysylltu unrhyw ddyfais recordio electronig â’r tu mewn i’r tacsi neu’r cerbyd hurio preifat sydd â’r gallu technegol i gipio a chadw delweddau gweledol o’r tu mewn neu’r tu allan i’r cerbyd.

2.7.5 Nid yw’r polisi hwn yn gosod gofyniad gorfodol ar weithredwyr trwyddedig tacsis a cherbydau hurio preifat i osod systemau TCC yn eu cerbydau. Rhaid i unrhyw system TCC i’w ffitio mewn tacsi neu gerbyd hurio preifat fodloni gofynion y polisi hwn o leiaf. Dim ond systemau TCC sy’n bodloni’r gofynion hyn y gellir eu gosod mewn tacsis trwyddedig a cherbydau hurio preifat.

2.7.6 Lle mae gweithredwr yn dymuno gosod a defnyddio system TCC, bydd yn amod o drwydded y tacsi neu’r cerbyd hurio preifat i gydymffurfio â gofynion y polisi hwn.

2.8 Y RHEOLWR DATA

2.8.1 Mae’r Comisiynydd Gwybodaeth yn diffinio “rheolwr data” fel y corff sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ar gyfer pob mater yn ymwneud â defnyddio data personol. At ddiben gosod a gweithredu system TCC mewn tacsis a cherbydau hurio preifat, y “rheolwr data” fydd deiliad trwydded y tacsi neu’r cerbyd hurio preifat ac nid y gyrrwr. Felly, bydd deiliad y drwydded, fel rheolwr data, yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y polisi hwn a chyda’r holl ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1998. Y rheolwr data sy’n gyfrifol yn gyfreithiol am ddefnyddio’r holl ddelweddau gan gynnwys toriadau mewn deddfwriaeth.

2.8.2 PROSESYDD DATA TRYDYDD PARTI

2.8.2.1 Lle defnyddir darparwr gwasanaeth ar gyfer storio data TCC o bell, byddan nhw'n gweithredu fel 'prosesydd data'. Mae prosesydd data, mewn perthynas â data personol, yn golygu unrhyw un (ar wahân i weithiwr y rheolwr data) sy'n prosesu data ar ran y rheolwr data, mewn ymateb i gyfarwyddiadau penodol. Mae'r rheolwr data'n cadw cyfrifoldeb llawn am weithredoedd y prosesydd data. Rhaid bod contract ysgrifenedig ffurfiol rhwng y rheolwr data a'r prosesydd data. Rhaid i'r contract gynnwys darpariaethau'n ymwneud â threfniadau diogelwch, cyfarwyddiadau cadw/dileu, ceisiadau am fynediad a threfniadau terfynu. Rhaid darparu copi o'r contract i swyddog awdurdodedig yr Adran Drwyddedu, neu i'r Heddlu, ar gais rhesymol.

2.8.2.2 Cyfrifoldeb y gyrrwr/perchennog fydd cydymffurfio â phob agwedd ar y gyfraith yn ymwneud â'r offer goruchwylio. Gellir canfod gofynion ac amodau TCC yn Atodiad 1(c).

2.9 GWEITHDREFNAU YMGEISIO

2.9.1 Ni ragnodir y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am drwydded cerbyd Hurio Preifat mewn deddfwriaeth. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais berthnasol fel a ddarparwyd gan yr Adran Drwyddedu a dangos y dogfennau cefnogol perthnasol.

2.10 YSTYRIED CEISIADAU

2.10.1 Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl eu haeddiant pan fydd yn fodlon bod y meini prawf priodol wedi'u bodloni a bod y ffurflen gais a'r dogfennau cefnogol yn gyflawn.

2.11 RHOI AC ADNEWYDDU'R DRWYDDED

2.11.1 Bydd y trwyddedau cerbydau hacnai a hurio preifat yn cael eu rhoi am 12 mis. Gall trwyddedau cerbydau gael eu hadnewyddu am hyd at un mis calendr cyn dirwyn i ben heb golli budd y drwydded.

2.11.2 Bydd y Cyngor ond yn derbyn ceisiadau cyflawn sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

2.11.3 Mae'r ffioedd trwydded i'w talu'n destun adolygiad a bydd unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn cael eu cyhoeddi fel y mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn.

2.11.4 Bydd ffurflenni cais, ffioedd priodol a dogfennaeth gefnogol, yn cael eu cyflwyno yn yr Adran Drwyddedu mewn person, trwy'r post neu'n electronig dan rai amgylchiadau.

2.11.5 Rhoddir trwyddedau mewn perthynas â Cherbydau Hacnai ar yr amod y bydd y cerbyd dan sylw'n gweithio'n bennaf yn Hacnai'r Sir.

2.11 6 Cyfrifoldeb y perchennog, y gyrrwr, ac yn achos hurio preifat, y gweithredwr, yw sicrhau bod cerbyd yn cael ei drwyddedu oherwydd gall pob un fod yn euog o drosedd o ddefnyddio cerbyd heb ei drwyddedu.

2.11.7 Ni fydd trwyddedau'n cael eu hadnewyddu ar ôl iddynt ddirwyn i ben. Os bydd deiliad trwydded yn methu adnewyddu trwydded ar y dyddiad dirwyn i ben priodol neu cyn hynny, bydd y drwydded yn darfod ac yn mynd yn annilys. Dylai deiliaid trwyddedau nodi os byddan nhw'n galluogi i'w trwydded ddirwyn i ben, bydd angen iddynt wneud cais newydd yn llawn. Wrth reswm, bydd hyn yn peri oedi sylweddol o bosibl mewn amser, ac yn dibynnu ar oedran y cerbyd presennol a drwyddedir, gallai ofyn am newid mewn cerbyd i fodloni'r gofynion oedran a osodwyd yn Adran. 2.4.2. Felly, gallai goblygiadau cost methu adnewyddu trwydded fod yn sylweddol, ac felly cynghorir deiliaid trwydded yn gryf i sicrhau eu bod yn adnewyddu eu trwydded cyn y dyddiad dirwyn i ben. Os bydd deiliad y drwydded yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na allant adnewyddu eu trwydded cyn y dyddiad dirwyn i ben, rhaid iddynt roi gwybod i'r Adran Drwyddedu'n syth.

2.12 CAR HIR

2.12.1 Ceir salŵn hir yw ceir hir a ddefnyddir yn fwyfwy at ddibenion gwaith Hurio Preifat y brif ffrwd. Mae eu defnydd cyffredinol yn cynnwys pob gwaith Hurio Preifat ac achlysuron arbennig fel partïon pen-blwydd ar gyfer pob oedran, partïon cyn priodi dynion a phartïon plu.

2.12.2 Caiff y rhan fwyaf o geir hir eu mewnforio at ddibenion masnachol ac felly mae angen iddynt gael prawf Cymeradwyo Cerbyd Unigol (IVA). Mae'r prawf yn gwirio bod y

cerbyd a drawsnewidiwyd wedi'i adeiladu i safonau diogelwch ac amgylcheddol penodol. O'u cyflwyno am brawf, cyflwynir datganiad i'r cerbyd na fydd byth yn cario mwy nag 8 teithiwr. Rhaid i'r mewnforiwr roi gwybod i unrhyw un a allai ei ddefnyddio am y cyfyngiad hwn.

2.12.3 Bydd ceisiadau i geir hir trwyddedig fel cerbydau Hurio Preifat yn cael eu trin yn ôl eu haeddiant. Fodd bynnag, cynigir bod cerbydau hir wedi'u mewnforio:

- yn cael eithriad o'r gofyniad dan amodau'r drwydded i gerbydau Hurio Preifat fod yn rhai gyriant llaw dde
- yn cael eithriad i arddangos platiau cerbydau Hurio Preifat
- yn cael eu cymeradwyo fel cerbyd Hurio Preifat yn amodol ar yr amodau ychwanegol y manylir arnynt yn Atodiad 1(d)

2.13 CERBYDAU CONTRACT

2.13.1 Mae Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006 yn gofyn bod cerbydau a ddefnyddir at ddibenion contract gyda sefydliad neu gwmni er mwyn cludo teithwyr ar gyfer Hurio neu wobrwyo dan gontract yn cael eu trwyddedu fel cerbydau Hurio Preifat. At ei gilydd, bydd hyn yn cynnwys hurio gweithredol, gwasanaeth chauffeur, teithio i faes awyr, ceir hir a cherbydau o fath newydd.

2.14 CERBYDAU ANGLADD A PHRIODAS

2.14.1 Yn unol â deddfwriaeth, nid oes angen i gerbydau angladd a phriodas gael eu trwyddedu tra byddant yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â phriodas neu angladd.

2.15 ÔL-GERBYDAU

2.15.1 Caniateir Cerbydau Hurio Preifat Trwyddedig i dynnu ôl-gerbyd. Fodd bynnag, bydd angen i Yrwyr Trwyddedig, sydd wedi'u heithrio o'r angen i basio hawl ôl-gerbyd gyrrwr DVLA ar hyn o bryd, gael hyfforddiant perthnasol cyn tynnu ôl-gerbyd. Gellir dod o hyd i fanylion ac amodau perthnasol i'r ôl-gerbyd yn Atodiad 1(e).

2.16 GWRTHDRAWIADAU / DIGWYDDIADAU

2.16.1 Bydd trwydded yn cael ei hatal os, o roi gwybod am ddigwyddiad i'r Cyngor, mewn cerbyd trwyddedig, yn ôl gofyniad yr amodau trwyddedu, y bydd y Cyngor o'r farn fod y difrod a achoswyd yn effeithio'n sylweddol ar ddiogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd trwyddedig neu ar gysur neu gyfleustod y teithwyr a gludir ynddo.

2.17 EITHRIO PLATIAU

2.17.1 Mae arddangos platiau adnabod allanol ar Gerbyd Hurio Preifat trwyddedig a gwisgo bathodyn adnabod gyrrwr yn bwysig o ran diogelwch y cyhoedd ac i'w calonogi. Dynodant i'r cyhoedd sy'n teithio bod y cerbyd a'r gyrrwr wedi'u cymeradwyo ac felly bydden nhw wedi bod yn destun nifer o archwiliadau pwysig cyn i'r drwydded gael ei chaniatáu.

2.17.2 Fodd bynnag, mae yna nifer fach o achlysuron pan allai'r gofyniad i arddangos platiau adnabod allanol fod wedi esgor ar oblygiadau diogelwch masnachol a chwsmeriaid h.y. diogelwch i wŷr pwysig a phobl enwog.

2.17.3 Nid yw'n fwriad y dylai pob cerbyd Hurio Preifat a drwyddedir gan y Cyngor gael eu heithrio o ofynion y Cyngor i arddangos plât adnabod allanol, ond mae'r Cyngor yn cydnabod hwyrach fod yna amgylchiadau pan fyddai'n briodol i gerbydau sy'n gweithredu'r math o wasanaeth gael eu hystyried yn addas am y fath eithriad. I'r perwyl hwnnw, bydd eithriad yn cael ei ganiatáu dim ond lle gall yr ymgeisydd fodloni'r cyngor:

- Nad oes risg diogelwch i'r cyhoedd
- Bod gofyniad busnes neu wasanaeth cyfreithlon
- Bod y cerbyd yn addas at y dibenion a amlinellir gan yr ymgeisydd.

2.17.4 Bydd pob cais am eithriad yn cael ei drin yn ôl ei haeddiant i'w hystyried mewn Pwyllgor Trwyddedu.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

2.18 MESURAU DISGYBLU A GORFODI

2.18.1 Nid yw deddfwriaeth gosod cyfundrefn drwyddedu ac amodau'r drwydded a ddyluniwyd i amddiffyn diogelwch y cyhoedd o unrhyw werth oni y cânt eu gorfodi'n gywir gan y Cyngor. I'r perwyl hwn, mae gan y Cyngor Swyddogion gorfodaeth tacsis ymroddedig.

2.18.2 Bydd y Cyngor yn cymryd camau disgyblu priodol o gael tystiolaeth fod trosedd wedi'i chyflawni gan yrrwr cerbyd hacnai neu hurio preifat, gweithredwr hurio preifat, perchennog cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacnai neu mewn perthynas â thrwydded cerbyd hacnai, cerbyd hurio preifat neu weithredwr.

2.18.3 Gallai troseddau gael eu cyflawni'n groes i'r ddeddfwriaeth a orfodir gan y Cyngor, yr amodau a osodir ar drwyddedau a ganiateir gan y Cyngor, yr is-ddeddfau a fabwysiadwyd sy'n rheoleiddio perchnogion a gyrwyr cerbydau hacnai neu'r Polisi hwn.

2.18.4 Bydd gyrwyr, gweithredwyr a pherchnogion cerbydau sydd wedi cyflawni troseddau dan ddeddfwriaeth y tu allan i'r hyn sy'n berthnasol i dacsis yn cael eu hymchwilio iddynt hefyd er mwyn cadarnhau a ydyn nhw'n dal i fod yn addas ac yn briodol i ddal trwydded.

2.18.5 Bydd y Cyngor yn ymgymryd â gweithrediadau gorfodi targedig (gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa arferol) yn seiliedig ar ddeallusrwydd a gafwyd yn ogystal ag at ddibenion cydymffurfiaeth.

2.18.6 Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion a gafwyd mewn perthynas â cherbydau trwyddedig a heb eu trwyddedu; gweithredwyr a gyrwyr yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a'r Polisi Gorfodi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

2.18.7 Bydd y Cyngor yn ymgymryd ag archwiliadau cydymffurfiaeth cyson o gofnodion Gweithredwyr, gyrwyr a pherchnogion cerbydau a gallai ofyn am unrhyw ddogfennaeth gan y rhai sy'n dal trwyddedau gyda'r Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau deddfwriaethol, amodau'r drwydded, isddeddfau a'r Polisi hwn.

2.18.8 Bydd y Cyngor yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill mewn perthynas â gweithgareddau anghyfreithlon o bosibl ac yn mynd i weithrediadau gorfodaeth ar y cyd gydag asiantaethau ac awdurdodau eraill. Gallai hyn gynnwys cymryd camau gorfodi mewn perthynas â gyrwyr a cherbydau a drwyddedir gan Awdurdodau eraill lle mae cytundebau a dirprwyaethau angenrheidiol ar waith.

2.18.9 Mae gan y Cyngor Bolisi Gorfodi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, ar gael ar wefan y Cyngor neu a ddarperir ar gais, sy'n rheoleiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn cymryd mesurau gorfodaeth. Mae hwn yn datgan y bydd unrhyw weithred yn gymesur, yn rhesymol, yn dryloyw ac yn cael ei gyfeirio'n briodol. Bydd manylion ar y camau gorfodi a gymerir yn cael eu rhannu gydag asiantaethau priodol eraill a gwasanaethau eraill y Cyngor.

2.19 CAMAU DISGYBLU

2.19.1 Ceir ystod o gamau disgyblu y gallai'r Cyngor eu cymryd yn dilyn canlyniad ymchwiliad. Mae hyn yn cynnwys erlyniad, dirymiad, gwrthodiad neu gosb ddisgyblu anffurfiol.

2.19.2 Lle nad oes tystiolaeth fod unrhyw gamymddwyn wedi digwydd, ni fydd camau gorfodi pellach yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, hwyrach y bydd llythyr ymgynghorol yn dal i fod yn briodol. Lle mae tystiolaeth o gamymddwyn, bydd y Cyngor yn gweithredu.

2.19.3 Bydd erlyniadau'n cael eu cymryd lle mae er lles y cyhoedd. Fodd bynnag, mae yna rai achosion lle mae dirymu neu ohirio trwydded yn welliant mwy effeithiol ac uniongyrchol nag erlyniad. Bydd deiliaid trwydded a gafodd eu herlyn yn llwyddiannus gan y Cyngor am droseddau a roddodd ddiogelwch y cyhoedd mewn perygl yn cael eu trwydded wedi'i dirymu.

2.19.4 Bydd y Cyngor yn dirymu, yn gohirio neu'n gwrthod adnewyddu trwydded lle mae deiliad y drwydded wedi cyflawni troseddau a roddodd ddiogelwch y cyhoedd mewn perygl neu am ddiffyg cydymffurfiaeth barhaus gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol neu amodau'r drwydded. Yn ogystal, gallai deiliad trwydded sy'n methu diogelu'r cyhoedd yn ddigonol, yn enwedig plant ac oedolion diamddiffyn gael eu trwydded wedi'i gohirio neu ei dirymu.

2.19.5 Ymdrinnir â mân droseddau nad ydynt yn rhoi'r cyhoedd mewn perygl ac nad ydynt yn cwestiynu addasrwydd deiliaid y drwydded yn anffurfiol dan gynllun rhybudd pwyntiau cosb y Cyngor. Gallai amledd neu natur mân droseddau olygu nad yw'r cynllun rhybudd pwyntiau cosb yn cael ei ystyried yn briodol a bydd angen cosb briodol arall, megis gohirio neu ddirymu.

2.19.6 Bydd camau a gymerwyd mewn perthynas â thrwyddedau cerbydau, fel gohirio neu ddirymu, yn cael eu hymdrin â nhw gan Swyddogion dan arweiniad gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amryfal) 1976 (gan gynnwys adrannau 60 a 68), Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 (gan gynnwys rhan 50), Polisi Gorfodi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Polisi hwn.

2.19.7 Ymdrinnir â chamau a gymerwyd mewn perthynas â gyrwyr neu weithredwyr sy'n cwympo y tu allan i'r cynllun rhybudd pwyntiau cosb gan Swyddogion oni y cyfeirir atynt gan y Pwyllgor Trwyddedu.

2.19.8 Un o swyddogaethau'r Pwyllgor Trwyddedu yw ystyried effaith troseddau yn erbyn y gyfraith ar addasrwydd unigolyn.

2.20 CYNLLUN PWYNTIAU COSB

2.20.1 Er bod gweithrediad busnes cerbyd hacnai a cherbyd hurio preifat llwyddiannus yn bwysig i les economaidd y Sir, mae'r un mor bwysig bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y busnes yn cael ei reoleiddio'n briodol er mwyn magu hyder yn y cyhoedd sy'n teithio sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaethau hynny.

2.20.2 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau bod pob gyrrwr, perchennog a gweithredwr cerbydau'n glynu wrth y safonau gofynnol ac yn rhoi'r rhain ar waith yn gyson ac yn dryloyw. Mae'r safonau dan sylw'n cael eu diffinio yn ôl deddfwriaeth, amodau trwydded, codau ymddygiad neu is-ddeddfau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ac yn y polisi hwn. Gyda'i gilydd, dynodant yr hyn sy'n ofynnol o'r busnes ac maen nhw'n helpu sicrhau y cymerir dull cyson.

2.20.3 Cred y cyngor mai ffordd effeithiol o roi amodau ar waith yn lleol yw trwy gynllun rhybudd pwyntiau cosb. Mae hyn yn ymddwyn fel cam cyntaf wrth sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau ac mae’n gweithredu fel system “rhybuddion cynnar” i yrwyr, perchnogion cerbydau, a gweithredwyr sy’n ystyried ei bod hi’n berthnasol anwybyddu eu cyfrifoldebau neu fethu â bodloni gofynion eu trwydded.

2.20.4 Cronnir pwyntiau ar raddfa lithro yn dibynnu ar y math o doriad sydd wedi digwydd. Yna, mae’r pwyntiau cosb hyn yn parhau’n “fyw” am gyfnod perthnasol ar gofnod y gyrwyr, y perchnogion neu’’r gweithredwyr o’r dyddiad y cânt eu gosod. Lle mae gyrrwr, perchennog neu weithredwr yn cronni nifer benodedig o bwyntiau o fewn y cyfnod perthnasol, gofynnir iddynt fynychu gwrandawiad disgyblu o flaen y Pwyllgor Trwyddedu. Gall y Pwyllgor naill ai ohirio neu ddirymu’r drwydded.

2.20.5 Dan rai amgylchiadau, yn enwedig y rhai’n ymwneud â diogelwch y cyhoedd, lle rhoddir yr uchafswm o 20 pwynt, gallai’r Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd ddirymu’r drwydded yn syth.

2.20.6 Credir bod cynllun pwyntiau cosb seiliedig ar rybuddion yn cynorthwyo’r busnes wrth gynnal safonau ond nid yw’n cyfaddawdu gallu’r Cyngor i gymryd camau gorfodi eraill am doriadau i statud neu amodau trwydded petai trosedd yn caniatáu’r camau hynny.

2.20.7 Manylir ar y cynllun pwyntiau cosb ymhellach yn Atodiad

2.21 TALIADAU

2.21.1 Ni all y Cyngor osod taliadau am gerbydau Hurio Preifat.

2.21.2 Rhaid i Weithredwyr Hurio Preifat sy’n defnyddio cerbydau trwyddedig lle mae mesurydd taliadau wedi’i ffitio ynddynt ddarparu tabl taliadau cyfredol i’r Cyngor. Rhaid i’r Tabl hwn gael ei arddangos ym mhob cerbyd Hurio Preifat hefyd er mwyn i bawb sy’n ei hurio gallu ei weld.

2.21.3 Gallai Gweithredwyr Hurio Preifat fabwysiadu tariff taliadau’r Cyngor ar gyfer Cerbydau Hacnai fel eu tariff taliadau.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 3. MANYLEB CERBYDAU HURIO PREIFAT

3.1 Cyffredinol

Bydd gan yr holl gerbydau "Gymeradwyaeth Math" priodol sef naill ai Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan Ewrop (EWVTA) neu Gymeradwyaeth Math Cyfaint Isel y DU (UKLVTA). Ni fydd y cerbydau wedi'u haddasu ers y rhoddwyd y gymeradwyaeth. Gall Cymeradwyaeth Math Cerbyd Unigol (SVTA) neu Gymeradwyaeth Cerbyd Annibynnol (IVA) gael ei dderbyn ar gyfer cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Bydd cerbydau sy'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo, a thra byddant mewn defnydd, yn cydymffurfio â Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986 ac unrhyw addasiadau neu ailddeddfiadau wedi hynny.

3.2 Ni ellir gosod unrhyw ffitiadau, heblaw'r rhai a gymeradwywyd, ar du allan neu du mewn y cerbyd.

3.3 Bydd Cerbyd Hacni'n gallu cludo o leiaf 4 a dim mwy nag 8 teithiwr.

3.4 Rhaid i bob cerbyd gael sedd gyrrwr ar yr ochr dde, oni bai eu bod wedi'u heithrio'n benodol gan y Cyngor.

3.5 Mae'n rhaid i'r holl gerbydau fod yn llai na 5 oed ar gyfer trwyddedau newydd a llai na 12 oed o'r dyddiad gweithgynhyrchu ar gyfer trwyddedau presennol.

3.6 Mae'n rhaid cynnal a chadw pob cerbyd i ddim llai na'r safonau a nodwyd yng nghyhoeddiad VOSA 'Llawlyfr Arolygiad MOT – Ceir a Masnach Ysgafn', ISBN 0-9549239-0-1 fel y'i diwygiwyd a Chanllaw Arolwg Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat y Cyngor.

3.7 Mae'r adrannau canlynol yn nodi'r gofynion amlinellol ar gyfer manyleb y Cyngor ar gyfer Cerbydau Hacni cyn eu harchwilio a'u profi gan orsaf brofi ddynodedig a awdurdodwyd gan y Cyngor. Mae rhestr o'r gorsafoedd profi awdurdodedig yn Atodiad (i'w gadarnhau).

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

3.8 CORFF

3.8.1 Ni fydd gan y cerbyd unrhyw arwyddion gweladwy o ddifrod sylweddol blaenorol” h.y. sgriffiadau dwfn

3.8.2 Bydd y gwaith paent wedi'i orffen i safon broffesiynol, bydd y gwaith paent wedi’i orffen yn broffesiynol ac yn un lliw cyson dros y cerbyd i gyd.

3.8.3 Ni fydd gan gorff y cerbyd unrhyw arwyddion sylweddol o gyrydiad. Mae cyrydiad yn cynnwys rhwd gweladwy ac arwyddion o rwd yn rhinwedd pothelli yn y paent.

3.8.4 Caniateir stepen os ydynt wedi’u gosod gan y gweithgynhyrchwyr yn unig. Bydd y stepen ag isafswm o 125mm o led, a bydd y cyfan ar gael fel gris.

3.9 OLWYNION A THEIARS

3.9.1 Bydd gan y cerbyd bedair olwyn o'r un safon, maint ac arddull, sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladwaith a defnydd.

3.9.2 Mae’n rhaid darparu system atgyweirio teiar priodol (fel y’i gosodwyd gan y gweithgynhyrchwyr).

3.9.3 Dylid defnyddio’r system atgyweirio briodol fel mesur brys yn unig h.y. er mwyn gallu gyrru’r cerbyd i gael ei drwsio.

3.9.4 Bydd yr holl deiars, gan gynnwys y teiar sbâr, yn cydymffurfio â manyleb gweithgynhyrchwyr y cerbyd.

3.9.5 Bydd yr holl deiars ar y cerbyd yn diwallu'r gofynion cyfreithiol presennol bob amser.

3.10 TU MEWN

3.10.1 Mae’n rhaid i gerbydau fod â digon o le er mwyn cadw bagiau mewn modd glân, saff, diogel ac yn dal dŵr.

3.10.2 Mae’n rhaid i gerbydau fod â gorchudd to sy’n dal dŵr a charped neu orchudd llawr priodol (heb unrhyw rwygau).

3.11 DRYSAU

3.11.1 Rhaid i holl salwnau, ceir ystad neu dacsis wedi’u haddasu’n arbennig fod â drysau’n agor ar y pedwar ochr, sy’n gallu cael eu hagor o’r tu mewn a’r tu allan. Rhaid i fysiau mini, faniau a cherbydau cludo criw fod ag o leiaf tri drws, heb gynnwys unrhyw ddrysau cefn na thinbren.

3.11.2 Bydd gan bob cerbyd ddrysau sy’n agor yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad hawdd i mewn ac allan o'r cerbyd.

3.11.3 Bydd y drysau’n hawdd eu hagor o’r tu allan a thu mewn i’r cerbyd trwy weithredu mecanwaith clicied.

3.11.4 Bydd yr handlen drws mewnol yn hawdd ei gweld ac yn hygyrch i deithwyr pan fydd y drws yn gwbl agored a bydd dull gweithredu’r handlen yn hawdd ei ddeall.

3.12 SEDDI

3.12.1 Bydd cerbydau’n gallu cludo o leiaf 4 teithiwr a dim mwy nag 8 teithiwr, fel y nodir yn nogfennau cofrestru V5 y cerbyd

3.12.2 Bydd gan bob sedd wregys diogelwch cwbl weithredol, sy’n cydymffurfio â’r safonau priodol.

3.12.3 Bydd pob sedd wedi’i chlustogi’n briodol ac yn lân.

3.12.4 Ni ddylid ailosod mowntiau seddi sydd wedi'u tynnu ac mae'n rhaid i arwyneb y llawr fod yn llyfn a heb rwystr.

3.12.5 Mae’n rhaid i bob sedd teithiwr wynebu ymlaen neu am yn ôl i'r cyfeiriad teithio (ni chaniateir i unrhyw deithiwr eistedd ar yr ochr oni bai eu bod wedi'u heithrio gan swyddog awdurdodedig y Cyngor ee limwsinau).

3.12.6 Mae’n rhaid darparu Tystysgrif Cymeradwyaeth Cerbyd Unigol i gyd-fynd ag unrhyw addasiad i ffurfwedd seddi mewn unrhyw gerbyd, gan gynnwys tynnu seddi.

3.12.7 Os adeiladwyd y cerbyd yn wreiddiol i gludo mwy nag 8 teithiwr (gan eithrio’r gyrrwr) ni ddylid ei drawsnewid, addasu neu ddiwygio mewn unrhyw fodd sy’n ei alluogi i gludo wyth o deithwyr neu lai (gan eithrio’r gyrrwr).

3.13 FFENESTRI

3.13.1 Ni fydd gan unrhyw gerbyd unrhyw fath arall o fodd i dywyllu neu arlliwio'r gwydr ar unrhyw ran o'r cerbyd, ar wahân i’r hyn a osodwyd gan y gwneuthurwr, neu'r hyn sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol.

3.14 CYFLEUSTERAU AR GYFER DEFNYDDWYR CADER OLWYN

3.14.1 Bydd gan unrhyw gerbyd sydd â chyfleuster ar gyfer cludo cadeiriau olwyn neu deithwyr mewn cadeiriau olwyn:

a) Angorfeydd cymeradwy a osodwyd gan y gweithgynhyrchwyr sydd naill ai wedi'u cysylltu â'r ffrâm neu'r llawr ac yn gallu gwrthsefyll profion dynamig neu sefydlog cymeradwy. Bydd atalfeydd cadeiriau olwyn a theithwyr yn annibynnol o'i gilydd. Bydd angorfeydd hefyd yn cael eu darparu i storio'r gadair olwyn yn ddiogel, boed wedi'i phlygu ai peidio, os yw'n cael ei chludo yn yr un man â'r teithwyr. Bydd yr holl angorfeydd ac atalfeydd yn cael eu dylunio fel nad ydynt yn achosi unrhyw berygl i deithwyr eraill ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n unol â manylebau'r gweithgynhyrchwyr.
b) Bydd ramp neu rampiau ar gael bob amser i lwytho cadair olwyn a'r teithiwr i'w defnyddio trwy'r drws cefn ar yr ochr agosaf. Bydd dyfais cloi ddigonol wedi'i gosod er mwyn sicrhau nad yw'r ramp(iau) yn llithro neu ogwyddo pan fyddant yn cael eu defnyddio. Rhaid darparu modd o storio'r rampiau'n ddiogel o fewn y cerbyd pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

3.14.2 Bydd gan y cerbyd lawlyfr /canllaw i ddefnyddwyr gan y gweithgynhyrchwyr ynglŷn â llwytho a dadlwytho a diogelwch teithwyr mewn cadeiriau olwyn.

3.14.3 Bydd unrhyw offer sydd wedi'i osod yn y cerbyd at ddibenion codi cadair olwyn i'r cerbyd wedi'i brofi'n unol â gofynion Rheoliadau Offer Codi a Gweithrediadau Codi 1998 cyn rhoi'r drwydded gyntaf a bob 6 mis wedi hynny. Mae'n rhaid cyflwyno Tystysgrif LOLER adeg Profion MOT a Chydymffurfiaeth i'r Orsaf Brofi Ddynodedig ac i'r Swyddog Trwyddedu pan roddir neu adnewyddir trwydded.

3.15 SYSTEMAU TANWYDD

3.15.1 Dylid gosod systemau tanwydd yn unol â safonau presennol y gweithgynhyrchwyr a safonau cyfreithiol. Cyn dechrau unrhyw drawsnewidiad tanwydd nwy mae'n ofynnol y ceisir caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y Cyngor.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

# Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 4. AMODAU CERBYD HURIO PREIFAT

4.1 Cynnal a Chadw’r Cerbyd

4.1.1 Bydd y cerbyd a’i holl osodiadau ac offer yn cael ei gadw mewn cyflwr effeithlon, diogel, glân* a thaclus bob amser pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio neu ar gael i'w logi, a bydd yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol (gan gynnwys y rhai o fewn Rheoliadau Cerbydau Modur (Adeiladwaith a Defnydd).

*Diffinnir cyflwr glân fel a ganlyn:

"Bydd yr holl baneli allanol o’r un lliw a gorffeniad, oni bai yr awdurdodwyd fel arall gan y Cyngor yn ysgrifenedig, a bydd wedi'i lanhau a'i lathru i safon uchel.  Bydd y ffenestri’n glir a heb iriad y tu mewn na’r tu allan.  Bydd y carpedi a’r seddi wedi’u hwfro a heb unrhyw doriadau, rhwygau neu staeniau."

4.1.2 Mae’n rhaid cynnal a chadw pob cerbyd trwyddedig mewn cyflwr diogel a glân bob amser  ac maent yn destun archwiliadau o'r fath fel sy'n ofynnol gan y Cyngor.

4.1.3 Mae’n rhaid i’r seddi gael eu sbring llawn, heb unrhyw staeniau, rhwygau, ôl llosg sigarennau neu ôl trwsio a heb eu gwisgo at yr edau. Ni ddylai’r gorchuddion llawr fod wedi’u gwisgo’n ormodol ac ni ddylent achosi unrhyw berygl o faglu.  Nid yw carpedi tai neu debyg yn dderbyniol ac ni ddylid eu defnyddio.  Mae’n rhaid i’r clustogwaith (gorchudd paneli ochr) fod yn rhydd o unrhyw faw, difrod ac wedi'u cynnal yn arddull wreiddiol y gweithgynhyrchwyr.

4.1.4 Heb leihau effaith y rhwymedigaethau a nodwyd yn 4.1 i 4.3 uchod a heb leihau effaith unrhyw arolygiadau eraill a nodir gan weithgynhyrchwyr y cerbyd, bydd perchennog y cerbyd trwyddedig yn sicrhau bod arolygiadau cynnal a chadw cerbyd arferol yn cael eu cydymffurfio fel isafswm, a bydd arolygiadau o'r fath yn cael eu cofnodi a'u cadw (am o leiaf 18 mis) ac ar gael i'w cyflwyno ar unwaith i Swyddog Awdurdodedig y Cyngor neu Swyddog yr Heddlu ar gais.

4.1.5 Sylwer nad yw'r gofyniad i arolygu'r cerbyd trwyddedig fel y nodir yn yr amod uchod yn rhyddhau perchennog y cerbyd o'i ymrwymiadau i gynnal arolygiadau dyddiol pellach i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau uchod.

4.2 ADDASU'R CERBYD

4.2.1 Ni ddylid gwneud unrhyw addasiad neu newid i fanyleb, dyluniad, cyflwr neu ymddangosiad y cerbyd ar ôl arolygu'r cerbyd gan y Cyngor ar unrhyw adeg tra bo'r drwydded yn weithredol a bydd y cerbyd yn cydymffurfio â manylebau'r Cyngor ar gyfer cerbyd hacni trwyddedig bob amser. Efallai na fydd cerbydau sydd wedi'u haddasu mewn unrhyw fodd o safon adeiladu'r gweithgynhyrchwyr yn cael ei ystyried yn addas at ddibenion trwyddedu gan ddibynnu ar natur yr addasiad.

4.3 PLÂT ADNABOD

4.3.1 Bydd y platiau i adnabod y cerbyd fel Cerbyd Hacni, y mae'n ofynnol eu harddangos ar y cerbyd yn unol ag Adran 51 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, yn cael eu gosod yn ddiogel ar du allan i'r cerbyd ar y blaen a'r cefn, ar neu uwchben lefel y bymper ac mor agos â phosibl yn fertigol, ond wedi'u gosod mewn modd fel y gall Swyddog Awdurdodedig y Cyngor neu Gwnstabl yr Heddlu eu tynnu'n hawdd.

4.3.2 Un sticer ffenestr mewnol, a ddarparwyd gan y Cyngor, wedi'i osod ar y ffenestr gefn.

4.3.3 Ni ddylid gosod y platiau trwydded na'r arwyddion ffenestr mewnol ar unrhyw gerbyd heblaw'r un a nodwyd ar y drwydded bresennol. Mae'r offer hwn yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor a dylid ei ildio ar unwaith pan ddaw'r drwydded i ben, pan gaiff y drwydded ei gwahardd neu ei dirymu.

4.4 MARCIAU MEWNOL

4.4.1 Bydd y perchennog yn sicrhau bod rhif eu trwydded a nifer y teithwyr a ganiateir ar y drwydded wedi'i nodi'n glir yn y cerbyd mewn lleoliad sy'n weladwy i deithwyr bob amser.

4.5 OFFER DIOGELWCH

4.5.1 Rhaid darparu diffoddydd tân addas ac effeithlon a bocs cymorth cyntaf addas, sy'n cynnwys gorchuddion cymorth cyntaf priodol, yn y cerbyd bob amser pan fydd yn cael ei ddefnyddio neu ar gael i'w logi, a dylid cadw offer o'r fath mewn lleoliad gweladwy yn y cerbyd sy'n hawdd ei gael i'w ddefnyddio ar unwaith mewn argyfwng. Dylid nodi y dylai unigolyn sydd â gwybodaeth briodol o gymorth cyntaf ddefnyddio'r bocs cymorth cyntaf.

4.6 ARWYDDION A HYSBYSIADAU

4.6.1 Gall y perchennog arddangos enw'r cwmni sy'n gweithredu'r cerbyd a /neu ei rif ffôn, ar ochr a/neu gefn y cerbyd, yn is na lefel y ffenestr, ond ni chaniateir unrhyw arwyddion, arwyddlun neu hysbysiadau eraill y tu mewn na thu allan i'r cerbyd heb ganiatâd ysgrifenedig penodol gan y Cyngor.

4.6.2 Mae'n rhaid i unrhyw berchennog sy'n dymuno defnyddio neu werthu gofod ar y cerbyd i hysbysebu cwmni/ busnes arall wneud cais i'r Cyngor gyda fersiwn drafft o'r hysbyseb i'w ystyried. Dim ond un hysbyseb awdurdodedig a ganiateir.

4.6.3 Ni ddylai hysbysebion o'r fath:

i. gynnwys unrhyw beth crefyddol neu wleidyddol
ii. hysbysebu alcohol neu dybaco
iii. gynnwys pornograffi neu dramgwyddo chwaeth dda
iv. hyrwyddo ffioedd is, neu
v. hysbysebu swyddi

4.7 OFFER RADIO

4.7.1 Ni all Gweithredwr, perchennog na gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat ddefnyddio neu achosi neu ganiatáu defnydd unrhyw offer radio ar gyfer cyfathrebu gweithredol rhwng y Gweithredwr a'r Gyrrwr, neu rhwng gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat eraill mewn unrhyw gerbyd. Heblaw am offer sianel gaeedig trwyddedig y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cyfathrebu gweithredol.

4.7.2 Dylai bob Gweithredwr / Perchennog Cerbyd Hurio Preifat sefydlu polisi ysgrifenedig ar y defnydd o ffonau symudol tra'n gyrru, a ddylai roi sylw i'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael ynglŷn â'r defnydd o ffonau symudol tra'n gyrru.

4.8 NEWID CYFEIRIAD

4.8.1 Bydd y perchennog yn hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, ynglŷn â newid cyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded, o fewn saith niwrnod o'r newid.

4.9 EUOGFARNAU

4.9.1 Bydd y perchennog, o fewn saith niwrnod, yn datgelu i'r Cyngor, yn ysgrifenedig, fanylion unrhyw euogfarnau, rhybuddion ffurfiol, rhyddhad diamod neu gosb benodedig, a gyflwynwyd iddo ef / iddi hi (neu os yw'r perchennog yn gwmni neu bartneriaeth, neu unrhyw gyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded.

4.10 CYFLWYNO TRWYDDED YRRU

4.10.1 Os yw'r perchennog yn caniatáu neu'n cyflogi unrhyw un arall i yrru'r cerbyd fel Cerbyd Hacni, bydd, cyn i'r unigolyn ddechrau gyrru'r cerbyd, yn sicrhau bod y gyrrwr yn cyflwyno ei drwydded Yrru Cerbyd Hacni i'w chadw nes nad yw'r gyrrwr yn cael ei ganiatáu neu ei gyflogi i yrru'r cerbyd neu unrhyw gerbyd arall sy'n eiddo i'r perchennog.

4.11 GYRWYR A GANIATEIR I YRRU'R CERBYD

4.11.1 Mae'n rhaid i'r perchennog neu unrhyw unigolyn arall a ganiateir neu a gyflogir i yrru'r cerbyd fel Cerbyd Hacni, fod yn ddeilydd trwydded gyrrwr Cerbyd Hacni presennol neu drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat a roddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

4.12 CYFLWYNO TRWYDDED CERBYD

4.12.1 Bydd y perchennog, wrth ddechrau gwaith gyda'r gweithredwr, yn cyflwyno ei drwydded i'r gweithredwr i'w chadw ganddo nes y bydd y cerbyd hwnnw'n peidio â gweithio i'r gweithredwr.

4.13 AROLYGU A PHROFI

4.13.1 Bydd y perchennog, os ceir cais gan Swyddog Awdurdodedig y Cyngor neu Swyddog yr Heddlu, yn cyflwyno'r cerbyd i'w arolygu a'i brofi ar adeg a dyddiad a nodir. Bydd arolygiadau a phrofion o'r fath yn ychwaneg i unrhyw ddarpariaethau statudol eraill.

4.14 GWRTHDRAWIAD

4.14.1 Bydd y perchennog yn hysbysu'r Swyddog Trwyddedu, yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mewn unrhyw ddigwyddiad o'r fath o fewn 72 awr ar ôl y digwyddiad, o unrhyw ddamwain i'r cerbyd gan achosi difrod sylweddol sy'n effeithio ar ddiogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd neu gysur neu gyfleustra'r teithwyr yn y cerbyd.

4.14.2 Os bydd trwydded yn cael ei gwahardd oherwydd natur y difrod, bydd y perchennog yn cyflwyno'r cerbyd i'w brofi mewn gorsaf brofi gymeradwy a chyflwyno tystysgrif cydymffurfiaeth i'w harchwilio cyn ailosod y drwydded.

4.15 CLUDO PLANT

4.15.1 Rhaid i gludo plant gydymffurfio â'r gofynion diweddaraf a osodwyd gan ddeddfwriaeth. Mae canllawiau pellach i'w gweld yn www.dft.gov.uk

4.15.2 Ni ddylai'r cerbyd gludo plant mewn pramiau; dylid plygu'r pramiau a'u storio.

4.16 POLISI TRWYDDEDU

4.16.1 Cydymffurfir â Pholisi Trwyddedu Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat y Cyngor (y ddogfen hon) bob amser.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 5. CERBYDAU HACNAI

5.1 CYFYNGU AR NIFEROEDD

5.1.1 Nid yw llawer o Awdurdodau Trwyddedu lleol, gan gynnwys Sir Ddinbych, yn gosod unrhyw gyfyngiadau meintiol ar Gerbydau Hacnai ac mae’r Adran Gludiant yn ystyried hyn fel arfer gorau. Petai Awdurdod yn ethol i osod cyfyngiadau ar niferoedd, mae canllawiau’r Adran Gludiant yn datgan y dylid ailystyried y penderfyniad hwnnw’n aml, er mwyn ystyried a ddylai’r cyfyngiadau barhau.

5.1.2 Lle caiff cyfyngiadau meintiol eu gosod, gall platiau trwyddedau cerbydau fynnu premiwm. Tuedda hyn i awgrymu bod yna bobl sydd eisiau mynd i mewn i’r farchnad a chynnig gwasanaeth i’r cyhoedd ond sy’n cael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd y cyfyngiadau ar niferoedd. Gall fod yn anodd cyfiawnhau rheolaeth feintiol dan y fath amgylchiadau.

5.1.3 Os bydd yr Awdurdod Lleol o’r farn y gellir cyfiawnhau cyfyngiad meintiol mewn egwyddor, mae Canllawiau’r Adran Gludiant yn cynghori y dylid mynd i’r afael â gosod lefel y cyfyngiad trwy arolwg, a fyddai’n golygu costau trwm.

5.1.4 Ar hyn o bryd, mae’r Cyngor wedi penderfynu peidio â gosod cyfyngiad ar nifer y Cerbydau Hacnai.

5.2 MANYLION AC AMODAU

5.2.1 Mae gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn ystod eang dros fathau o gerbydau y gallant eu trwyddedu’n Gerbydau Hacnai. Mae canllawiau’r Llywodraeth yn awgrymu y dylai awdurdodau trwyddedu lleol fabwysiadu’r egwyddor o ddynodi cynifer o wahanol fathau o gerbydau â phosibl a’u hannog i ddefnyddio rheolau “cymeradwyo math” o fewn unrhyw fanylion a benderfynir ganddynt.

5.2.2 At ei gilydd, bydd Cerbydau Hacnai, yn cael eu trwyddedu i gludo 4 teithiwr, ond bydd ceisiadau mewn perthynas â cherbydau mwy o faint a all eistedd hyd at wyth teithiwr yn cael eu hystyried, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â manylion y gwneuthurwr sy’n berthnasol i’r cerbydau hynny.

5.2.3 Bydd yr Awdurdod yn gosod amodau, fel yr ystyria'u bod yn rhesymol angenrheidiol, ar drwyddedau Cerbydau Hacnai. Mae'r cerbydau hyn yn cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd, felly mae'n briodol gosod meini prawf ar gyfer safon cyflwr allanol a mewnol y cerbyd, ar yr amod nad yw'r rhain yn afresymol o feichus.

5.2.4 Mae Atodiad 6 yn gosod y fanyleb a'r safonau gofynnol mewn perthynas â Cherbydau Hacnai.

5.3 HYGYRCHEDD

5.3.1 Mae'r Awdurdod yn llwyr gefnogi safbwynt y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sef,

"mae gwneud teithiau llwyddiannus yn hanfodol i gynhwysiant cymdeithasol pobl anabl. Heb y gallu i deithio, ni chaiff pobl anabl fynediad i gyfleoedd bywyd. Caiff eu mynediad i addysg, siopa, cyflogaeth, gofal iechyd, yn ogystal â bywyd cymdeithasol a theuluol ei wella'n sylweddol pan fydd modd mynd ar deithiau"

5.3.2 I'r perwyl hwn, ystyria'r Awdurdod ei bod hi'n bwysig bod pobl gydag anableddau'n cael mynediad i bob math o gludiant cyhoeddus. Yn ogystal â'r amodau cyffredinol, mae hygyrchedd i bobl anabl sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bobl sydd angen teithio mewn cadair olwyn, yn ystyriaeth bwysig.

5.3.3 Dylai gwahanol ystyriaethau hygyrchedd fod yn berthnasol i Gerbydau Hacnai yn wahanol i gerbydau Hurio Preifat, oherwydd gellir llogi Cerbydau Hacnai'n syth oddi ar y stryd neu mewn Safle Cerbydau Hacnai gan y cwsmer sy'n delio'n uniongyrchol gyda'r gyrrwr, lle gall cerbydau Hurio Preifat gael eu defnyddio dim ond trwy archebu ymlaen llaw, trwy Weithredwr fel rheol. Ar y sail bod rhaid i'r anableddau hynny gael mynediad cyfartal i wasanaethau cludiant, ystyrir ei bod hi'n hynod bwysig i rywun anabl allu llogi Cerbyd Hacnai yn y fan a'r lle gyda chyn lleied o oedi neu anghyfleustod â phosibl ac mae cael Cerbydau Hacnai hygyrch ar gael yn helpu i wneud hynny'n bosibl.

5.3.4 Mae gan yrwyr Tacsis trwyddedig ddyletswydd dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 i gludo cŵn tywys, clyw a chymorth rhagnodedig eraill yn eu tacsis heb ffi

ychwanegol. Gall gyrwyr a chanddynt gyflwr meddygol sy’n cael ei waethygu o gael eu hamlygu i gŵn wneud cais i Gyngor Sir Ddinbych er mwyn cael eu heithrio o’r ddyletswydd am resymau meddygol. Gallai unrhyw yrrwr arall sy’n methu cydymffurfio â’r ddyletswydd hon gael ei erlyn trwy’r Llys Ynadon a byddant yn atebol i ddirwy a gellir ystyried nad ydynt yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacnai neu Hurio Preifat. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar y mater ar wefan yr Adran Gludiant yn https://www.gov.uk/transport-disabled/taxis-and-minicabs

5.4 UCHAFSWM OEDRAN CERBYDAU

5.4.1 Bydd yr Awdurdod yn ystyried pa mor bell y gall ac y dylai ei Bolisi gefnogi unrhyw fenter amgylcheddol lleol a mentrau’r dyfodol, fel gosod safonau gollyngiadau cerbydau neu hyrwyddo tanwydd glanach, yn ogystal â sicrhau safon fodern ei cherbydau trwyddedig.

5.4.2 Rhaid i bob cerbyd a drwyddedir dan gais newydd fod hyd at uchafswm o 5 mlwydd oed o ddyddiad y cofrestriad cyntaf ac, os ydyw’n cydymffurfio â’r gofynion ar gyfer y drwydded, bydd trwydded y cerbyd yn cael ei hadnewyddu i hyd at 12 mlwydd oed yn unig, a bryd hynny, bydd yn rhaid disodli’r cerbyd gydag un sydd hyd at uchafswm oedran o 5 mlwydd oed o ddyddiad y cofrestriad cyntaf. Mae hyn yn berthnasol hefyd i unrhyw gerbyd trwyddedig a drosglwyddir/disodlir neu sydd wedi bod yn rhan o wrthdrawiad traffig y ffordd.

5.4.3 Bydd gan bob cerbyd trwyddedig presennol “hawliau tad-cu” am 5 mlynedd ar ôl gweithredu’r polisi hwn, erbyn hynny, rhaid i bob cerbyd trwyddedig presennol allu cydymffurfio â 5.4.2 uchod e.e. rhaid i bob cerbyd trwyddedig 12 mlwydd oed neu’n hŷn, o ddyddiad y cofrestriad cyntaf, fod wedi’i ddisodli gydag un o uchafswm oedran o 5 mlwydd oed o ddyddiad y cofrestriad cyntaf. Bydd hyn ond yn berthnasol i gerbydau trwyddedig sydd wedi cael trwydded barhaus. Bydd cerbydau trwyddedig nad ydynt yn cael eu hadnewyddu cyn dyddiad dirwyn i ben y drwydded bresennol yn cael eu trin fel cerbyd newydd a bydd 5.4.2 uchod yn berthnasol.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

5.5 PROFI CERBYDAU

5.5.1 Cyn rhoi trwydded, bydd pob cerbyd yn cael ei archwilio a'i brofi mewn gorsaf brofi ddynodedig wedi'i chymeradwyo gan yr Awdurdod.

5.5.2 Defnyddir Cerbydau Hacnai at ddibenion llogi a gwobrwyo ac yn hynny o beth maen nhw'n destun milltiroedd blynyddol llawer uwch a gyrru mwy llafurus na cherbydau preifat arferol. Felly, er lles diogelwch teithwyr a defnyddwyr eraill y ffordd, mae angen cyfundrefn cynnal a chadw a phrofi llymach. Mae'r Datganiad Polisi hwn yn ystyried y Llawlyfr archwiliad MOT ar gyfer Profion Ceir a Cherbydau Masnachol Ysgafn a gyhoeddir gan DVSA fel safon archwilio sylfaenol ar gyfer Cerbydau Hacnai. Fodd bynnag, yn ogystal â safonau'r DVSA, mae'n ofyniad i bob cerbyd gydymffurfio â Chanllawiau Archwilio Cerbydau Hacnai a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor. Felly, wrth asesu cyflwr mecanyddol cerbyd, mae'n bosibl y gallai nodyn ymgynghorol MOT fethu safonau gorsaf profion y Cyngor.

5.5.3 Pwrpas y prawf Cerbydau Hacnai yw cadarnhau bod cerbydau'n bodloni'r safonau llymach sy'n cael eu gosod yn y Datganiad Polisi hwn. Rhaid i gerbydau gael eu cyflwyno'n gwbl barod ar gyfer y prawf. Ni fwriedir i'r prawf gael ei ddefnyddio yn lle rhaglen cynnal a chadw ataliol rheolaidd. Mae'n drosedd dan Reoliadau Adeiladu a Defnyddio Cerbydau 1986 i ddefnyddio cerbyd anaddas i'r ffordd ar y briffordd gyhoeddus. Gallai gyrwyr/perchnogion Cerbydau Hacnai sy'n methu cynnal eu cerbydau mewn cyflwr diogel ac addas i'r ffordd fawr gael eu trwydded(au) wedi'u gwahardd dros dro, neu eu dirymu gan y Cyngor.

5.5.4 Mae'r canlynol yn crynhoi'r drefn brofi ar gyfer cerbydau hacni:

POB CERBYD NEWYDD I'R FFLYD (ni waeth beth yw ei oedran) 1 x Prawf MOT a Chydymffurfiaeth bob 6 mis.

Bydd MOT a Chydymffurfiaeth Gychwynnol yn digwydd yng Ngwasanaethau Fflyd y Sir Bydd pob Cydymffurfiaeth bellach (hyd at 5 mlynedd o ddyddiad y cofrestriad cyntaf) yn digwydd mewn unrhyw Orsaf Brofi Ddynodedig.

CERBYDAU TRWYDDEDIG DAN 5 MLWYDD OED (o ddyddiad y cofrestriad cyntaf)

2 x MOT a Phrawf Cydymffurfiaeth bob 6 mis Mewn unrhyw Orsaf Brofi Ddynodedig.

CERBYDAU TRWYDDEDIG 5 MLWYDD OED NEU'N HYN A HYD AT 12 MLWYDD OED

(o ddyddiad y cofrestriad cyntaf)

2 x Prawf MOT a Chydymffurfiaeth bob 6 mis

1 mewn Gwasanaethau Fflyd ac 1 mewn unrhyw Orsaf Brofi Ddynodedig.

5.5.5 Bydd cerbydau a gyflwynir am eu profion MOT a Chydymffurfiaeth mewn cyflwr a fyddai'n arwain at fethiant yn destun unrhyw ffi ail brawf perthnasol, a fydd yn cael ei phenderfynu gan yr Orsaf Brofi Ddynodedig.

5.5.6 Nid yw'r gyfundrefn archwilio ar gyfer cerbydau wedi'i dylunio er mwyn creu anawsterau i'r busnes Cerbydau Hacnai a Hurio Preifat, ond i hyrwyddo diogelwch cerbydau a'r ffordd. Felly, ystyria'r Cyngor fod y gofynion archwilio'n gyfiawn yn ôl y risgiau mae'n anelu at fynd i'r afael â nhw.

5.5.7 Mae gan unrhyw Swyddog Cyngor awdurdodedig neu unrhyw Gwnstabl Heddlu'r grym ar bob adeg resymol i archwilio a phrofi at ddiben cadarnhau addasrwydd unrhyw Gerbyd Hacnai a drwyddedir gan Sir Ddinbych. Os teimla'r Swyddog fod y cerbyd trwyddedig yn anaddas i'w ddefnyddio fel Cerbyd Hacnai, neu fod y cerbyd trwyddedig yn torri'r ddeddfwriaeth tacsis neu Bolisi ac Amodau Trwyddedu'r Cyngor, gallai'r drwydded gerbydau gael ei gohirio, ei dirymu neu beidio â chael ei hadnewyddu.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

5.6 ARWYDDION / HYSBYSEBU / LIFRAI

5.6.1 Mae'n bwysig y dylai'r cyhoedd allu adnabod a deall y gwahaniaeth rhwng Cerbyd Hacnai a cherbyd Hurio Preifat.

5.6.2 Mae platiau adnabod cerbyd yn nodwedd allweddol wrth helpu adnabod cerbydau sydd wedi'u trwyddedu'n briodol. Bydd pob cerbyd trwyddedig yn dangos un plât ar y blaen ac un ar gefn y cerbyd.

5.6.3 Bydd rhaid i Gerbyd Hacnai a drwyddedir gan y Cyngor gario arwydd goleuedig ar y to. Rhaid i'r arwydd ar y to ddatgan “Taxi/Tacsi” a rhaid iddo fod ynghynn wrth yrru tacsi.

5.6.4 Bydd manylion unrhyw arwyddion neu hysbysebu y gofynnwyd iddynt gael eu gosod ar Gerbyd Hacnai yn cael eu cyflwyno i'r Adran Drwyddedu i'w hystyried o ran ei chynnwys. Os na chymeradwyir yr hysbyseb gan y Swyddog, yna bydd y cais hysbysebu'n cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu i'w hystyried.

5.7 DIOGELWCH / TCC

5.7.1 Mae'r fasnach Cerbydau Hacnai yn cynnig gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr, yn enwedig yn hwyr yn y nos pan na fydd mathau eraill o gludiant cyhoeddus ar gael. Mae diogelwch i yrwyr a theithwyr yn hollbwysig. Gall teledu cylch caeedig (TCC) fod yn werthfawr wrth atal yn ogystal ag er mwyn diogelu'r gyrrwr rhag cwynion anghyfiawn.

5.7.2 Ni chynigir y dylai fod angen mesurau fel TCC, fel rhan o'r gyfundrefn drwyddedu, oherwydd ystyrir y dylid gadael y farn honno i'r perchnogion a'r gyrwyr eu hunain.

5.7.3 Wrth alluogi'r gwaith o osod a defnyddio TCC, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellir defnyddio'r systemau hynny i atal a chanfod troseddau, lleihau'r ofn o drosedd a gwella diogelwch gyrwyr tacsi a cherbydau hurio preifat, yn ogystal â'u teithwyr. Fodd bynnag, ceisia'r polisi hwn hefyd sicrhau nad yw'r gwaith o osod a gweithredu systemau TCC yn cyfaddawdu diogelwch naill ai'r gyrwyr na'r teithwyr nac yn ymyrryd yn afresymol â phreifatrwydd aelodau'r cyhoedd.

5.7.4 At ddibenion y polisi hwn, bydd system TCC yn cynnwys cysylltu unrhyw ddyfais recordio electronig â'r tu mewn i'r tacsi neu'r cerbyd hurio preifat sydd â'r gallu technegol i gipio a chadw delweddau gweledol o'r tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd.

5.7.5 Nid yw'r polisi hwn yn gosod gofyniad gorfodol ar weithredwyr trwyddedig tacsis a cherbydau hurio preifat i osod systemau TCC yn eu cerbydau. Rhaid i unrhyw system TCC i'w ffitio mewn tacsi neu gerbyd hurio preifat fodloni gofynion y polisi hwn fel isafswm. Dim ond systemau TCC sy'n bodloni'r gofynion hyn y gellir eu gosod mewn tacsis trwyddedig a cherbydau hurio preifat.

5.7.6 Lle mae gweithredwr yn dymuno gosod a defnyddio system TCC, bydd yn amod y drwydded tacsi neu gerbyd hurio preifat i gydymffurfio â gofynion y polisi hwn.

5.8 Y RHEOLWR DATA

5.8.1 Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn diffinio "rheolwr data" fel y corff sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 ar gyfer pob mater yn ymwneud â defnyddio data personol. At ddiben gosod a gweithredu system TCC mewn tacsis a cherbydau hurio preifat, y "rheolwr data" fydd deiliad trwydded y tacsi neu'r cerbyd hurio preifat ac nid y gyrrwr. Felly, bydd deiliad y drwydded, fel rheolwr data, yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y polisi hwn a chyda'r holl ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1998. Y rheolwr data sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am ddefnyddio'r holl ddelweddau gan gynnwys toriadau mewn deddfwriaeth.

5.9 PROSESYDD DATA TRYDYDD PARTI

5.9.1 Lle defnyddir darparwr gwasanaeth ar gyfer storio data TCC o bell, byddan nhw'n gweithredu fel 'prosesydd data'. Mae prosesydd data, mewn perthynas â data personol, yn golygu unrhyw un (ar wahân i weithiwr y rheolwr data) sy'n prosesu data ar ran y rheolwr data, mewn ymateb i gyfarwyddiadau penodol. Mae'r rheolwr data'n cadw cyfrifoldeb llawn am weithredoedd y prosesydd data. Rhaid bod contract ysgrifenedig ffurfiol rhwng y rheolwr data a'r prosesydd data. Rhaid i'r contract gynnwys darpariaethau'n ymwneud â threfniadau diogelwch, cyfarwyddiadau cadw/dileu, mynediad i geisiadau a threfniadau terfynu. Rhaid darparu copi o'r contract i swyddog awdurdodedig yr Adran Drwyddedu, neu i'r Heddlu, ar gais rhesymol.

5.9.2 Cyfrifoldeb y gyrrwr/perchennog fydd cydymffurfio â phob agwedd ar y gyfraith yn ymwneud â'r offer goruchwyliaeth. Gellir canfod gofynion ac amodau TCC yn Atodiad 10.

5.10 SAFLEOEDD TACSI

5.10.1 Mae rhestr lawn o safleoedd Cerbydau Hacnai, eu hunion leoliad ar bob stryd, yr amser maen nhw'n cael eu defnyddio ac uchafswm lle pob un ar gael gan yr Adran Drwyddedu.

5.11 TALIADAU

5.11.1 Caiff y Tabl Taliadau Cerbydau Hacnai ("y tariff") ei osod gan y Cyngor ac mae'n gosod yr uchafswm tâl y gellir ei godi gan yrwyr Cerbydau Hacnai ar gyfer teithiau.

5.11.2 Mae'r tariff taliadau'n orfodol fel is-ddeddf ac mae'n drosedd i unrhyw un godi mwy na'r tâl ar y mesurydd.

5.11.3 Bydd y Cyngor yn adolygu graddfa daliadau'r Cerbydau Hacnai o bryd i'w gilydd trwy gysylltu â Pherchnogion y Cerbydau Hacnai.

5.11.4 Gallai Perchnogion Cerbydau Hacnai ofyn, yn ysgrifenedig, am adolygiad o raddfa daliadau'r Cyngor ac unrhyw adeg resymol.

5.11.5 Bydd tabl uchafswm taliadau awdurdodedig yn cael eu darparu i bob Perchennog Cerbyd Hacnai, y mae’n rhaid ei ddangos wedyn ym mhob cerbyd er mwyn i bob huriwr allu ei weld.

5.12 MESURAU DISGYBLU A GORFODI

5.12.1 Nid yw deddfwriaeth gosod cyfundrefn drwyddedu ac amodau’r drwydded a ddyluniwyd i amddiffyn diogelwch y cyhoedd o unrhyw werth oni y cânt eu gorfodi’n gywir gan y Cyngor. I’r perwyl hwn, mae gan y Cyngor Swyddogion gorfodaeth tacsis ymroddedig.

5.12.2 Bydd y Cyngor yn cymryd camau disgyblu priodol o gael tystiolaeth fod trosedd wedi’i chyflawni gan yrrwr cerbyd hacnai neu hurio preifat, gweithredwr hurio preifat, perchennog hurio preifat neu gerbyd hacnai neu mewn perthynas â cherbyd hacnai, cerbyd hurio preifat neu drwydded y gweithredwr.

5.12.3 Gallai troseddau gael eu cyflawni’n groes i’r ddeddfwriaeth a orfodir gan y Cyngor, yr amodau a osodir ar y trwyddedau a ganiateir gan y Cyngor, yr is-ddeddfau a fabwysiadwyd sy’n rheoleiddio perchnogion a gyrwyr cerbydau hacnai neu’r Polisi hwn.

5.12.4 Bydd gyrwyr, gweithredwyr a pherchnogion cerbydau sydd wedi cyflawni troseddau dan ddeddfwriaeth y tu allan i’r hyn sy’n berthnasol i dacsis yn cael eu hymchwilio iddynt hefyd er mwyn cadarnhau a ydyn nhw’n dal i fod yn addas ac yn briodol i ddal trwydded.

5.12.5 Bydd y Cyngor yn ymgymryd â gweithrediadau gorfodi targedig (gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa arferol) yn seiliedig ar ddeallusrwydd a gafwyd yn ogystal ag at ddibenion cydymffurfiaeth.

5.12.6 Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion a gafwyd mewn perthynas â cherbydau trwyddedig a heb eu trwyddedu; gweithredwyr a gyrwyr yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a’r Polisi Gorfodi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

5.12.7 Bydd y Cyngor yn ymgymryd ag archwiliadau cydymffurfiaeth cyson o gofnodion Gweithredwyr, gyrwyr a pherchnogion cerbydau a gallent ofyn am unrhyw ddogfennaeth gan y rhai sy'n dal trwyddedau gyda'r Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau deddfwriaethol, amodau'r drwydded, isddeddfau a'r Polisi hwn.

5.12.8 Bydd y Cyngor yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill mewn perthynas â darpar weithgareddau anghyfreithlon ac yn mynd i weithrediadau gorfodaeth ar y cyd gydag asiantaethau ac awdurdodau eraill. Gallai hyn gynnwys cymryd camau gorfodi mewn perthynas â gyrwyr a cherbydau a drwyddedir gan Awdurdodau eraill lle mae cytundebau a dirprwyaethau angenrheidiol ar waith.

5.12.9 Mae gan y Cyngor Bolisi Gorfodi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, ar gael ar wefan y Cyngor neu a ddarperir ar gais, sy'n rheoleiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn cymryd mesurau gorfodaeth. Mae hwn yn datgan y bydd unrhyw weithred yn gymesur, yn rhesymol, yn dryloyw ac yn cael ei gyfeirio'n briodol. Bydd manylion ar y camau gorfodi a gymerir yn cael eu rhannu gydag asiantaethau priodol eraill a gwasanaethau eraill y Cyngor.

5.13 CAMAU DISGYBLU

5.13.1 Ceir ystod o gamau disgyblu y gallai'r Cyngor eu cymryd yn dilyn canlyniad ymchwiliad. Mae hyn yn cynnwys erlyniad, dirymiad, gwrthodiad neu gosb ddisgyblu anffurfiol.

5.13.2 Lle nad oes tystiolaeth o unrhyw gamymddwyn, ni fydd camau gorfodi pellach yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, hwyrach y bydd llythyr ymgynghorol yn dal i fod yn briodol. Lle mae tystiolaeth o gamymddwyn, bydd y Cyngor yn gweithredu.

5.13.3 Bydd erlyniadau'n cael eu cymryd lle mae er lles y cyhoedd. Fodd bynnag, mae yna rai achosion lle mae dirymu neu ohirio trwydded yn welliant mwy effeithiol ac uniongyrchol nag erlyniad. Bydd deiliaid trwydded a gafodd eu herlyn yn llwyddiannus gan y Cyngor am droseddau a roddodd ddiogelwch y cyhoedd mewn perygl yn cael eu trwydded wedi'i dirymu.

5.13.4 Bydd y Cyngor yn dirymu, yn gohirio neu’n gwrthod adnewyddu trwydded lle mae deiliad y drwydded wedi cyflawni troseddau a roddodd ddiogelwch y cyhoedd mewn perygl neu am ddiffyg cydymffurfiaeth barhaus gyda’r ddeddfwriaeth berthnasol neu amodau’r drwydded. Yn ogystal, gallai deiliad trwydded sy’n methu diogelu’r cyhoedd yn ddigonol, yn enwedig plant ac oedolion diamddiffyn, gael eu trwydded wedi’i gohirio neu ei dirymu.

5.13.5 Ymdrinnir â mân droseddau nad ydynt yn rhoi’r cyhoedd mewn perygl ac nad ydynt yn cwestiynu addasrwydd deiliaid y drwydded yn anffurfiol dan gynllun rhybudd pwyntiau cosb y Cyngor. Gallai amledd neu natur mân droseddau olygu nad yw’r cynllun rhybudd pwyntiau cosb yn cael ei ystyried yn briodol a bod angen cosb briodol ac arall, megis gohirio neu ddirymu.

5.13.6 Bydd Swyddogion yn cymryd camau mewn perthynas â thrwyddedau cerbydau, fel gohirio neu ddirymu, dan arweiniad gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amryfal) 1976 (gan gynnwys adrannau 60 a 68) Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 (gan gynnwys adran 50), Polisi Gorfodi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a’r Polisi hwn.

5.13.7 Ymdrinnir â chamau a gymerir mewn perthynas â gyrwyr neu weithredwyr sy’n cwympo y tu allan i’r cynllun rhybudd pwyntiau cosb gan Swyddogion oni y cyfeirir atynt gan y Pwyllgor Trwyddedu.

5.13.8 Un o swyddogaethau’r Pwyllgor Trwyddedu yw ystyried effaith troseddau yn erbyn y gyfraith ar addasrwydd unigolyn.

5.14 CYNLLUN PWYNTIAU COSB

5.14.1 Er bod gweithrediad busnes cerbydau hacnai a cherbydau hurio preifat llwyddiannus yn bwysig i les economaidd y Sir, mae'r un mor bwysig bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y busnes yn cael ei reoleiddio'n briodol er mwyn magu hyder yn y cyhoedd sy'n teithio sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaethau hynny.

5.14.2 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau bod pob gyrrwr, perchennog a gweithredwr cerbydau'n glynu wrth y safonau gofynnol ac yn rhoi'r rhain ar waith yn gyson ac yn dryloyw. Mae'r safonau dan sylw'n cael eu diffinio yn ôl deddfwriaeth, amodau trwydded, codau ymddygiad neu is-ddeddfau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ac yn y polisi hwn. Gyda'i gilydd, dynodant yr hyn sy'n ofynnol o'r fasnach ac maen nhw'n helpu sicrhau y cymerir dull cyson.

5.14.3 Cred y Cyngor mai ffordd effeithiol o roi amodau ar waith yn lleol yw trwy gynllun rhybudd pwyntiau cosb. Mae hyn yn ymddwyn fel cam cyntaf wrth sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau, ac mae'n gweithredu fel system "rhybuddion cynnar" i yrwyr, perchnogion cerbydau, a gweithredwyr sy'n ystyried ei bod hi'n addas anwybyddu eu cyfrifoldebau neu fethu bodloni gofynion eu trwydded.

5.14.4 Cronnir pwyntiau ar raddfa lithro yn dibynnu ar y math o doriad sydd wedi digwydd. Yna, mae'r pwyntiau cosb yn parhau'n "fyw" am gyfnod perthnasol ar y gyrwyr, perchnogion neu mae'r gweithredwyr yn cofnodi o'r dyddiad y cânt eu gosod. Lle mae gyrrwr, perchennog neu weithredwr yn cronni nifer benodedig o bwyntiau o fewn y cyfnod perthnasol, gofynnir iddynt fynychu gwrandawiad disgyblu o flaen y Pwyllgor Trwyddedu. Gall y Pwyllgor naill ai ohirio neu ddirymu'r drwydded.

5.14.5 Dan rai amgylchiadau, yn enwedig y rhai'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd, lle rhoddir yr uchafswm o 20 pwynt, gallai'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ddirymu'r drwydded yn syth.

5.14.6 Credir bod cynllun pwyntiau cosb seiliedig ar rybuddion yn cynorthwyo'r busnes wrth gynnal safonau ond nid yw'n cyfaddawdu gallu'r Cyngor i gymryd camau gorfodi eraill ar gyfer toriadau i statud neu amodau trwydded petai trosedd yn caniatáu'r camau hynny.

5.14.7 Manylir ar y cynllun pwyntiau cosb ymhellach yn Atodiad .

5.15 GWEITHDREFNAU YMGEISIO

5.15.1 Ni ragnodir y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am drwydded cerbyd Hurio Preifat mewn deddfwriaeth. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais berthnasol fel a ddarparwyd gan yr Adran Drwyddedu a dangos y dogfennau cefnogol perthnasol.

5.16 YSTYRIED CEISIADAU

5.16.1 Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl eu haeddiant pan fydd yn fodlon bod y meini prawf priodol wedi'u bodloni a bod y ffurflen gais a'r dogfennau cefnogol yn gyflawn.

5.17 ADNEWYDDU'R DRWYDDED

5.17.1 Bydd y trwyddedau Cerbydau Hacnai yn cael eu rhoi am 12 mis. Gall trwyddedau cerbydau gael eu hadnewyddu am hyd at un mis calendr cyn dirwyn i ben heb golli budd y drwydded.

5.17.2 Ni fydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau cyflawn sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

5.17.3 Mae'r ffioedd trwydded i'w talu'n destun adolygiad a bydd unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn cael eu cyhoeddi fel y mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn.

5.17.4 Bydd ffurflenni cais, ffioedd priodol a dogfennaeth gefnogol, yn cael eu cyflwyno yn yr Adran Drwyddedu mewn person, trwy'r post neu, dan rai amgylchiadau, yn electronig.

5.17.5 Rhoddir trwyddedau mewn perthynas â Cherbydau Hacnai, ar yr amod y bydd y cerbyd dan sylw'n gweithio'n bennaf yn y Sir. Cyfeiriwch at Bolisi Defnydd Bwriadedig y Sir yn Atodiad.

5.17.6 Cyfrifoldeb y perchennog, y gyrrwr, ac yn achos hurio preifat, y gweithredwr, yw sicrhau bod cerbyd yn cael ei drwyddedu oherwydd gall pob un fod yn euog o drosedd o ddefnyddio cerbyd heb ei drwyddedu.

5.17.7 Bydd ffurflenni cais, ffioedd priodol a dogfennaeth gefnogol yn cael eu cyflwyno yn yr Adran Drwyddedu. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw sicrhau bod trwyddedau'n cael eu hadnewyddu cyn iddynt ddirwyn i ben.

5.17.8 Ni fydd trwyddedau'n cael eu hadnewyddu ar ôl iddynt ddirwyn i ben. Petai deiliad trwydded yn methu adnewyddu trwydded ar y dyddiad dirwyn i ben priodol neu cyn hynny, bydd y drwydded yn darfod ac yn mynd yn annilys. Dylai deiliaid trwyddedau nodi petaen nhw'n galluogi i'w trwydded ddirwyn i ben, bydd angen iddynt wneud cais newydd yn llawn. Wrth reswm, bydd hyn yn peri oedi sylweddol o bosibl mewn amser, ac yn dibynnu ar oedran y cerbyd presennol a drwyddedir, gallai ofyn am newid cerbyd i fodloni'r gofynion oedran a osodwyd yn Adran 5.4.2 y polisi hwn. Felly, gallai goblygiadau cost methu adnewyddu trwydded fod yn sylweddol, ac felly cynghorir deiliaid trwydded yn gryf i sicrhau eu bod yn adnewyddu eu trwydded cyn y dyddiad dirwyn i ben. Os bydd deiliad y drwydded yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na allant adnewyddu eu trwydded cyn y dyddiad dirwyn i ben, rhaid iddynt roi gwybod i'r Adran Drwyddedu'n syth.

5.18 ÔL-GERBYDAU

5.18.1 Gwaherddir Cerbydau Hacnai rhag tynnu ôl-gerbyd.

5.19 GWRTHDRAWIADAU / DIGWYDDIADAU

5.19.1 Bydd trwydded yn cael ei gohirio os, o roi gwybod am ddigwyddiad i'r Cyngor, mewn cerbyd trwyddedig, yn ôl gofynion yr amodau trwyddedu, y bydd y Cyngor o'r farn fod y difrod a achoswyd yn effeithio'n sylweddol ar ddiogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd trwyddedig neu ar gysur neu gyfleustod y teithwyr a gludir ynddo.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 6. MANYLEB AC AMODAU TRWYDDED AR GYFER CERBYDAU HACNI

6.1 MANYLEB Y CERBYDAU

CYFFREDINOL

6.1.1 Bydd gan yr holl gerbydau “Gymeradwyaeth Math” priodol sef naill ai Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan Ewrop (EWVTA) neu Gymeradwyaeth Math Cyfaint Isel y DU (UKLVTA). Ni fydd y cerbydau wedi’u haddasu ers y rhoddwyd y gymeradwyaeth. Gall Cymeradwyaeth Math Cerbyd Unigol (SVTA) neu Gymeradwyaeth Cerbyd Annibynnol (IVA) gael ei dderbyn ar gyfer cerbydau sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn. Bydd cerbydau sy’n cael eu cyflwyno i’w cymeradwyo, a thra byddant mewn defnydd, yn cydymffurfio â Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986 ac unrhyw addasiadau neu ailddeddfiadau wedi hynny.

6.1.2 Ni ellir gosod unrhyw ffitiadau, heblaw'r rhai a gymeradwywyd, ar du allan neu du mewn y cerbyd.

6.1.3 Bydd Cerbyd Hacni’n gallu cludo o leiaf 4 a dim mwy nag 8 teithiwr.

6.1.4 Rhaid i bob cerbyd gael sedd gyrrwr ar yr ochr dde, oni bai eu bod wedi’u heithrio’n benodol gan y Cyngor.

6.1.5 Mae’n rhaid i’r holl gerbydau fod yn llai na 5 oed ar gyfer trwyddedau newydd a llai na 12 oed o'r dyddiad gweithgynhyrchu ar gyfer trwyddedau presennol.

6.1.6 Mae’n rhaid cynnal a chadw pob cerbyd i ddim llai na’r safonau a nodwyd yng nghyhoeddiad VOSA ‘Llawlyfr Arolygiad MOT – Ceir a Masnach Ysgafn’, ISBN 0-9549239-0-1 fel y’i diwygiwyd a Chanllaw Arolwg Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat y Cyngor.

6.1.7 Mae’r adrannau canlynol yn nodi’r gofynion amlinellol ar gyfer manyleb y Cyngor ar gyfer Cerbydau Hacni cyn eu harchwilio a’u profi gan orsaf brofi ddynodedig a awdurdodwyd gan y Cyngor. Mae rhestr o’r gorsafoedd profi awdurdodedig yn Atodiad 8.

6.2 CORFF

6.2.1 Ni fydd gan y cerbyd unrhyw arwyddion gweladwy o ddifrod sylweddol blaenorol" h.y. sgriffiadau dwfn.

6.2.2 Bydd y gwaith paent wedi'i orffen i safon broffesiynol, bydd y gwaith paent wedi'i orffen yn broffesiynol ac yn un lliw cyson dros y cerbyd i gyd.

6.2.3 Ni fydd gan gorff y cerbyd unrhyw arwyddion sylweddol o gyrydiad. Mae cyrydiad yn cynnwys rhwd gweladwy ac arwyddion o rwd yn rhinwedd pothelli yn y paent.

6.2.4 Caniateir stepen os ydynt wedi'u gosod gan y gweithgynhyrchwyr yn unig. Bydd y stepen ag isafswm o 125mm o led, a bydd y cyfan ar gael fel gris.

6.3 OLWYNION A THEIARS

6.3.1 Bydd gan y cerbyd bedair olwyn o'r un safon, maint ac arddull, sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladwaith a defnydd.

6.3.2 Mae'n rhaid darparu system atgyweirio teiar priodol (fel y'i gosodwyd gan y gweithgynhyrchwyr).

6.3.3 Dylid defnyddio'r system atgyweirio briodol fel mesur brys yn unig h.y. er mwyn gallu gyrru'r cerbyd i gael ei drwsio.

6.3.4 Bydd yr holl deiars, gan gynnwys y teiar sbâr, yn cydymffurfio â manyleb gweithgynhyrchwyr y cerbyd.

6.3.5 Bydd yr holl deiars ar y cerbyd yn diwallu'r gofynion cyfreithiol presennol bob amser.

6.4 TU MEWN

6.4.1 Mae'n rhaid i gerbydau fod â digon o le er mwyn cadw bagiau mewn modd glân, saff, diogel ac yn dal dŵr.

6.4.2 Mae’n rhaid i gerbydau fod â gorchudd to sy’n dal dŵr a charped neu orchudd llawr priodol (heb unrhyw rwygau).

6.5 DRYSAU

6.5.1 Rhaid i holl salwnau, ceir ystad neu dacsis wedi’u haddasu’n arbennig fod â drysau’n agor ar y pedwar ochr, sy’n gallu cael eu hagor o’r tu mewn a’r tu allan. Rhaid i fysiau mini, faniau a cherbydau cludo criw fod ag o leiaf tri drws, heb gynnwys unrhyw ddrysau cefn na thinbren.

6.5.2 Bydd gan bob cerbyd ddrysau sy’n agor yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad hawdd i mewn ac allan o'r cerbyd.

6.5.3 Bydd y drysau’n hawdd eu hagor o’r tu allan a thu mewn i’r cerbyd trwy weithredu mecanwaith clicied.

6.5.4 Bydd yr handlen drws mewnol yn hawdd ei gweld ac yn hygyrch i deithwyr pan fydd y drws yn gwbl agored a bydd dull gweithredu’r handlen yn hawdd ei ddeall.

6.6 SEDDI

6.6.1 Bydd cerbydau’n gallu cludo o leiaf 4 teithiwr a dim mwy nag 8 teithiwr, fel y nodir yn nogfennau cofrestru V5 y cerbyd

6.6.2 Bydd gan bob sedd wregys diogelwch cwbl weithredol, sy’n cydymffurfio â’r safonau priodol.

6.6.3 Bydd pob sedd wedi’i chlustogi’n briodol ac yn lân.

6.6.4 Ni ddylid ailosod mowntiau seddi sydd wedi'u tynnu ac mae'n rhaid i arwyneb y llawr fod yn llyfn a heb rwystr.

6.6.5 Mae’n rhaid i bob sedd teithiwr wynebu ymlaen neu am yn ôl i'r cyfeiriad teithio (ni chaniateir i unrhyw deithiwr eistedd ar yr ochr oni bai eu bod wedi'u heithrio gan swyddog awdurdodedig y Cyngor ee limwsinau).

6.6.6 Mae'n rhaid darparu Tystysgrif Cymeradwyaeth Cerbyd Unigol i gyd-fynd ag unrhyw addasiad i ffurfwedd seddi mewn unrhyw gerbyd, gan gynnwys tynnu seddi.

6.6.7 Os adeiladwyd y cerbyd yn wreiddiol i gludo mwy nag 8 teithiwr (gan eithrio'r gyrrwr) ni ddylid ei drawsnewid, addasu neu ddiwygio mewn unrhyw fodd sy'n ei alluogi i gludo wyth o deithwyr neu lai (gan eithrio'r gyrrwr).

6.7 FFENESTRI

6.7.1 Ni fydd gan unrhyw gerbyd unrhyw fath arall o fodd i dywyllu neu arlliwio'r gwydr ar unrhyw ran o'r cerbyd, ar wahân i'r hyn a osodwyd gan y gwneuthurwr, neu'r hyn sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol

6.8 CYFLEUSTERAU AR GYFER DEFNYDDWYR CADEIRIAU OLWYN

6.8.1 Bydd gan unrhyw gerbyd sydd â chyfleuster ar gyfer cludo cadeiriau olwyn neu deithwyr mewn cadeiriau olwyn:

a) Angorfeydd cymeradwy a osodwyd gan y gweithgynhyrchwyr sydd naill ai wedi'u cysylltu â'r ffrâm neu'r llawr ac yn gallu gwrthsefyll profion dynamig neu sefydlog cymeradwy. Bydd atalfeydd cadeiriau olwyn a theithwyr yn annibynnol o'i gilydd. Bydd angorfeydd hefyd yn cael eu darparu i storio'r gadair olwyn yn ddiogel, boed wedi'i phlygu ai peidio, os yw'n cael ei chludo yn yr un man â'r teithwyr. Bydd yr holl angorfeydd ac atalfeydd yn cael eu dylunio fel nad ydynt yn achosi unrhyw berygl i deithwyr eraill ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n unol â manylebau'r gweithgynhyrchwyr.
b) Bydd ramp neu rampiau ar gael bob amser i lwytho cadair olwyn a'r teithiwr i'w defnyddio trwy'r drws cefn ar yr ochr agosaf. Bydd dyfais cloi ddigonol wedi'i gosod er mwyn sicrhau nad yw'r ramp(iau) yn llithro neu ogwyddo pan fyddant yn cael eu defnyddio. Rhaid darparu modd o storio'r rampiau'n ddiogel o fewn y cerbyd pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

6.8.2 Bydd gan y cerbyd lawlyfr /canllaw i ddefnyddwyr gan y gweithgynhyrchwyr ynglŷn â llwytho a dadlwytho a diogelwch teithwyr mewn cadeiriau olwyn.

6.8.3 Bydd unrhyw offer sydd wedi'i osod yn y cerbyd at ddibenion codi cadair olwyn i'r cerbyd wedi'i brofi'n unol â gofynion Rheoliadau Offer Codi a Gweithrediadau Codi 1998 cyn rhoi'r drwydded gyntaf a bob 6 mis wedi hynny. Mae'n rhaid cyflwyno Tystysgrif LOLER adeg Profion MOT a Chydymffurfiaeth i'r Orsaf Brofi Ddynodedig ac i'r Swyddog Trwyddedu pan roddir neu adnewyddir trwydded.

6.9 SYSTEMAU TANWYDD

6.9.1 Dylid gosod systemau tanwydd yn unol â safonau presennol y gweithgynhyrchwyr a safonau cyfreithiol. Cyn dechrau unrhyw drawsnewidiad tanwydd nwy mae'n ofynnol y ceisir caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y Cyngor.

## CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 7. AMODAU CERBYD HACNAI

### 7.1 CYNNAL A CHADW'R CERBYD

7.1.1 Bydd y cerbyd a'i holl osodiadau ac offer yn cael ei gadw mewn cyflwr effeithlon, diogel, glân* a thaclus bob amser pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio neu ar gael i'w logi, a bydd yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol (gan gynnwys y rhai o fewn Rheoliadau Cerbydau Modur (Adeiladwaith a Defnydd).

*Diffinnir cyflwr glân fel a ganlyn:

"Bydd yr holl baneli allanol o'r un lliw a gorffeniad, oni bai yr awdurdodwyd fel arall gan y Cyngor yn ysgrifenedig, a bydd wedi'i lanhau a'i lathru i safon uchel. Bydd y ffenestri'n glir a heb iriad y tu mewn na'r tu allan. Bydd y carpedi a'r seddi wedi'u hwfro a heb unrhyw doriadau, rhwygau neu staeniau."

7.1.2 Mae'n rhaid cynnal a chadw pob cerbyd trwyddedig mewn cyflwr diogel a glân bob amser ac maent yn destun archwiliadau o'r fath fel sy'n ofynnol gan y Cyngor.

7.1.3 Mae'n rhaid i'r seddi gael eu sbring llawn, heb unrhyw staeniau, rhwygau, ôl llosg sigarennau neu ôl trwsio a heb eu gwisgo at yr edau. Ni ddylai'r gorchuddion llawr fod wedi'u gwisgo'n ormodol ac ni ddylent achosi unrhyw berygl o faglu. Nid yw carpedi tai neu debyg yn dderbyniol ac ni ddylid eu defnyddio. Mae'n rhaid i'r clustogwaith (gorchudd paneli ochr) fod yn rhydd o unrhyw faw, difrod ac wedi'u cynnal yn arddull wreiddiol y gweithgynhyrchwyr.

7.1.4 Heb leihau effaith y rhwymedigaethau a nodwyd yn 7.1.1 i 7.1.3 uchod a heb leihau effaith unrhyw arolygiadau eraill a nodir gan weithgynhyrchwyr y cerbyd, bydd perchennog y cerbyd trwyddedig yn sicrhau bod arolygiadau cynnal a chadw cerbyd arferol yn cael eu cydymffurfio fel isafswm, a bydd arolygiadau o'r fath yn cael eu cofnodi a'u cadw (am o leiaf 18 mis) ac ar gael i'w cyflwyno ar unwaith i Swyddog Awdurdodedig y Cyngor neu Swyddog yr Heddlu ar gais.

7.1.5 Sylwer nad yw’r gofyniad i arolygu’r cerbyd trwyddedig fel y nodir yn yr amod uchod yn rhyddhau perchennog y cerbyd o'i ymrwymiadau i gynnal arolygiadau dyddiol pellach i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau uchod.

7.2 ADDASU'R CERBYD

7.2.1 Ni ddylid gwneud unrhyw addasiad neu newid i fanyleb, dyluniad, cyflwr neu ymddangosiad y cerbyd ar ôl arolygu’r cerbyd gan y Cyngor ar unrhyw adeg tra bo'r drwydded yn weithredol a bydd y cerbyd yn cydymffurfio â manylebau'r Cyngor ar gyfer cerbyd hacni trwyddedig bob amser. Efallai na fydd cerbydau sydd wedi’u haddasu mewn unrhyw fodd o safon adeiladu’r gweithgynhyrchwyr yn cael ei ystyried yn addas at ddibenion trwyddedu gan ddibynnu ar natur yr addasiad.

7.3 PLÂT ADNABOD

7.3.1 Bydd y platiau i adnabod y cerbyd fel Cerbyd Hacni, y mae'n ofynnol eu harddangos ar y cerbyd yn unol ag Adran 51 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, yn cael eu gosod yn ddiogel ar du allan i'r cerbyd ar y blaen a'r cefn, ar neu uwchben lefel y bymper ac mor agos â phosibl yn fertigol, ond wedi'u gosod mewn modd fel y gall Swyddog Awdurdodedig y Cyngor neu Gwnstabl yr Heddlu eu tynnu'n hawdd.

7.3.2 Un sticer ffenestr mewnol, a ddarparwyd gan y Cyngor, wedi'i osod ar y ffenestr gefn.

7.3.3 Ni ddylid gosod y platiau trwydded na’r arwyddion ffenestr mewnol ar unrhyw gerbyd heblaw’r un a nodwyd ar y drwydded bresennol. Mae’r offer hwn yn parhau i fod yn eiddo i’r Cyngor a dylid ei ildio ar unwaith pan ddaw'r drwydded i ben, pan gaiff y drwydded ei gwahardd neu ei dirymu.

7.4 MARCIAU MEWNOL

7.4.1 Bydd y perchennog yn sicrhau bod rhif eu trwydded a nifer y teithwyr a ganiateir ar y drwydded wedi'i nodi'n glir yn y cerbyd mewn lleoliad sy'n weladwy i deithwyr bob amser.

7.5 OFFER DIOGELWCH

7.5.1 Rhaid darparu diffoddydd tân addas ac effeithlon a bocs cymorth cyntaf addas, sy'n cynnwys gorchuddion cymorth cyntaf priodol, yn y cerbyd bob amser pan fydd yn cael ei ddefnyddio neu ar gael i'w logi, a dylid cadw offer o'r fath mewn lleoliad gweladwy yn y cerbyd sy'n hawdd ei gael i'w ddefnyddio ar unwaith mewn argyfwng. Dylid nodi y dylai unigolyn sydd â gwybodaeth briodol o gymorth cyntaf ddefnyddio'r bocs cymorth cyntaf.

7.6 ARWYDDION A HYSBYSEBU

7.6.1 Gall y perchennog arddangos enw'r cwmni sy'n gweithredu'r cerbyd a /neu ei rif ffôn, ar ochr a/neu gefn y cerbyd, yn is na lefel y ffenestr, ond ni chaniateir unrhyw arwyddion, arwyddlun neu hysbysiadau eraill y tu mewn na thu allan i'r cerbyd heb ganiatâd ysgrifenedig penodol gan y Cyngor.

7.6.2 Mae'n rhaid i unrhyw berchennog sy'n dymuno defnyddio neu werthu gofod ar y cerbyd i hysbysebu cwmni/ busnes arall wneud cais i'r Cyngor gyda fersiwn drafft o'r hysbyseb i'w ystyried. Dim ond un hysbyseb awdurdodedig a ganiateir.

7.6.3 Ni ddylai hysbysebion o'r fath:

i. gynnwys unrhyw beth crefyddol neu wleidyddol
ii. hysbysebu alcohol neu dybaco
iii. gynnwys pornograffi neu dramgwyddo chwaeth dda
iv. hyrwyddo ffioedd is, neu
v. hysbysebu swyddi

7.7 OFFER RADIO

7.7.1 Ni all Gweithredwr, perchennog na gyrrwr Cerbyd Hacni ddefnyddio neu achosi neu ganiatáu defnydd unrhyw offer radio ar gyfer cyfathrebu gweithredol rhwng y Gweithredwr a'r Gyrrwr, neu rhwng gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat eraill mewn unrhyw gerbyd. Heblaw am offer sianel gaeedig trwyddedig y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cyfathrebu gweithredol.

7.7.2 Dylai bob Gweithredwr / Perchennog Cerbyd Hacni sefydlu polisi ysgrifenedig ar y defnydd o ffonau symudol tra'n gyrru, a ddylai roi sylw i'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael ynglŷn â'r defnydd o ffonau symudol tra'n gyrru.

7.8 MESURYDD A PHRISIAU TEITHIO

7.8.1 Mae'n rhaid i'r cerbyd gael mesurydd tacsi sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol presennol. Bydd y mesurydd tacsi:

a) yn dangos y pris a gofnodwyd ar y mesurydd tacsi mewn ffigyrau darllenadwy, a bydd y gair 'FARE' yn cael ei arddangos yn glir ar gyfer ffigyrau o'r fath;
b) bydd y mesurydd wedi'i osod yn unol â Thabl Ffioedd Cerbydau Hacni'r Cyngor, dylid arddangos y ffioedd y mae'r mesurydd yn eu defnyddio yn y cerbyd mewn lleoliad y gall y teithwyr ei weld. Mae'n rhaid i dabl o'r fath ddangos manylion llawn yr holl ffioedd a ddefnyddir ar y mesurydd.

7.8.2 Ni ddylai'r mesuryddion a ddefnyddir hwyluso defnydd twyllodrus. Bydd unrhyw arwyddion o ymyrryd gan gynnwys torri unrhyw sêl yn arwain at gyflwyno rhybudd gwahardd ar unwaith. Er mwyn diddymu'r rhybudd gwahardd, bydd yn rhaid i fesurydd y cerbyd gael ei selio a'i osod gan gwmni mesurydd cymeradwy a'i gyflwyno i'w archwilio gan y Cyngor.

7.9 CLUDO PLANT

7.9.1 Rhaid i gludo plant gydymffurfio â'r gofynion diweddaraf a osodwyd gan ddeddfwriaeth. Mae canllawiau pellach i'w gweld yn www.dft.gov.uk

7.9.2 Ni ddylai'r cerbyd gludo plant mewn pramiau; dylid plygu'r pramiau a'u storio.

7.10 NEWID CYFEIRIAD

7.10.1 Bydd y perchennog yn hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, ynglŷn â newid cyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded, o fewn saith niwrnod o'r newid.

7.11 EUOGFARNAU

7.11.1 Bydd y perchennog, o fewn saith niwrnod, yn datgelu i'r Cyngor, yn ysgrifenedig, fanylion unrhyw euogfarnau, rhybuddion ffurfiol, rhyddhad diamod neu gosb benodedig, a gyflwynwyd iddo ef / iddi hi (neu os yw'r perchennog yn gwmni neu bartneriaeth, neu unrhyw gyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded.

7.12 CYFLWYNO TRWYDDED YRRU

7.12.1 Os yw'r perchennog yn caniatáu neu'n cyflogi unrhyw un arall i yrru'r cerbyd fel Cerbyd Hacni, bydd, cyn i'r unigolyn ddechrau gyrru'r cerbyd, yn sicrhau bod y gyrrwr yn cyflwyno ei drwydded Yrru Cerbyd Hacni i'w chadw nes nad yw'r gyrrwr yn cael ei ganiatáu neu ei gyflogi i yrru'r cerbyd neu unrhyw gerbyd arall sy'n eiddo i'r perchennog.

7.13 GYRRWYR A GANIATEIR I YRRU'R CERBYD

7.13.1 Mae'n rhaid i'r perchennog neu unrhyw unigolyn arall a ganiateir neu a gyflogir i yrru'r cerbyd fel Cerbyd Hacni, fod yn ddeilydd trwydded gyrrwr Cerbyd Hacni presennol neu drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat a roddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

7.14 CYFLWYNO TRWYDDED CERBYD

7.14.1 Bydd y perchennog, wrth ddechrau gwaith gyda'r gweithredwr, yn cyflwyno ei drwydded i'r gweithredwr i'w chadw ganddo nes y bydd y cerbyd hwnnw'n peidio â gweithio i'r gweithredwr.

7.15 ADOLYGU A PHROFI

7.15.1 Bydd y perchennog, os ceir cais gan Swyddog Awdurdodedig y Cyngor neu Swyddog yr Heddlu, yn cyflwyno'r cerbyd i'w arolygu a'i brofi ar adeg a dyddiad a nodir. Bydd arolygiadau a phrofion o'r fath yn ychwaneg i unrhyw ddarpariaethau statudol eraill.

7.16 GWRTHDRAWIAD

7.16.1 Bydd y perchennog yn hysbysu’r Swyddog Trwyddedu, yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mewn unrhyw ddigwyddiad o’r fath o fewn 72 awr ar ôl y digwyddiad, o unrhyw ddamwain i’r cerbyd gan achosi difrod sylweddol sy’n effeithio ar ddiogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd neu gysur neu gyfleustra'r teithwyr yn y cerbyd.

17.16.2 Os bydd trwydded yn cael ei gwahardd oherwydd natur y difrod, bydd y perchennog yn cyflwyno’r cerbyd i’w brofi mewn gorsaf brofi gymeradwy a chyflwyno tystysgrif cydymffurfiaeth i'w harchwilio cyn ailosod y drwydded.

7.17 POLISI TRWYDDEDU

7.17 Cydymffurfir â Pholisi Trwyddedu Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat y Cyngor (y ddogfen hon) bob amser.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

# Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 8. GORSAFOEDD PROFI DYNODEDIG

Coastal Cars, 116 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl LL18 2PD - 01745 339410

D.C.C, Fleet Management and Vehicle Maintanence Centre, Expressway Business Park, Ffordd Abergele, Bodelwyddan, LL18 5SQ - 01745 839230

Dragon Tyres, Stryd Mwrog, Rhuthun, LL15 1LB - 01824 703336

Kenrick Motors, Stryd y Farchnad, Llangollen LL20 8RA - 01978 861382

Marine Lake Motors, Brig Y Don Commercials, Ffordd Wellington, Y Rhyl LL18 1LE - 01745 336107

Y trwyddedai sy'n gyfrifol am dalu'r ffi am y profion. Nid yw'r Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am ddifrod i gerbyd na ffitiadau ac ati tra bo'r cerbyd yn cael prawf.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU
# Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 9. Amodau Arbennig ar gyfer trwyddedu mathau penodol o gerbydau (limwsinau, offer tân, cerbydau arbenigol)

9.1 GWREGYSAU DIOGELWCH

9.1.1 Rhaid gosod gwregysau diogelwch ar bob sedd sy’n wynebu’r blaen a’r cefn, a rhaid eu gwisgo bob amser gan deithwyr tra bod y cerbyd yn symud. Nid oes gofyniad cyfreithiol i gael gwregysau diogelwch ar seddi sy'n wynebu'r ochr.

9.2 Uchafswm Teithwyr

9.2.1 Rhaid lleihau capasiti eistedd limwsîn lle bo’n briodol i uchafswm o 8 teithiwr.

9.2.2 Ni fydd unrhyw seddi yn adran y gyrrwr, oni bai am sedd y gyrrwr, yn cael eu defnyddio i gludo teithwyr

9.2.3 Nid yw'r cerbyd yn cael cludo mwy nag 8 teithiwr ar unrhyw adeg. (Mae baban ym mreichiau oedolyn yn cael ei gyfrif fel teithiwr waeth beth yw ei oedran).

9.2.4 Mewn unrhyw hysbysiad sy’n cyhoeddi eu gwasanaeth limwsîn, rhaid i’r gweithredwr ddatgan mai trwydded i gludo 8 teithiwr yn unig sydd gan y cerbyd.

9.3 Alcohol / Adloniant

9.3.1 Dim alcohol i’w gyflenwi i deithwyr oni bai bod awdurdod addas ar waith o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 sy'n caniatáu gwerthu neu gyflenwi'r un fath

9.3.2 Os yw’r deiliaid o dan 18 oed, ni ddylid cludo alcohol yn adran y teithwyr.

9.3.3 Rhaid i unrhyw nwyddau gwydr yn y cerbyd fod wedi’u gwneud o wydr nad ydyw’n torri, neu blastig

9.3.4 Ni chaiff y gyrrwr chwarae neu ganiatáu perfformiad o unrhyw ffilm, fideo, neu gyfrwng tebyg lle bydd y teithiwr yn y cerbyd o dan yr oed a ganiateir drwy ddosbarthiad oedran i weld ffilm benodol ac ati.

9.4 Cyffredinol

9.4.1 Ni all unrhyw berson sy’n gweithredu'r cerbyd wisgo gwisg a all arwain at y teithwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn credu eu bod yn aelod o unrhyw wasanaethau brys.

9.4.2 Ni all yr holl oleuadau, seirenau, arwyddion ac offer ategol eraill roi’r argraff fod y cerbyd yn gerbyd gwasanaethau brys tu mewn.

9.4.3 Ni all unigolyn o dan 15 oed eistedd ar y seddi sy’n wynebu’r ochr.

9.4.4 Rhaid i’r gweithredwr roi cymorth corfforol i sicrhau diogelwch teithwyr pan fyddant yn dod ar y cerbyd neu’n mynd oddi arno.

9.4.5 Rhaid hysbysebu cyfyngiad ar grwpiau penodol o deithwyr yn glir ar y deunyddiau hyrwyddo ar adeg yr archeb.

9.4.6 Mae’r holl amodau yn y fanyleb a’r amodau o’r cerbyd Hurio Preifat (Atodiad 1) yn gymwys i limwsinau a cherbydau anarferol ac ati, ar wahân i’r rhai hynny wedi’u heithrio’n benodol.

9.4.7 Gall amodau ychwanegol pellach gael eu cymhwyso lle bo’n briodol.

## 10. TCC - Gofynion Cyffredinol ac amodau – Gosod a Gweithredu

10.1 Mae’n rhaid i ddeilydd y drwydded roi gwybod i’r Adain Drwyddedu yn ysgrifenedig cyn gosod y system TCC yn y cerbyd. Hefyd, mae’n rhaid i berchennog y cerbyd wneud yn siŵr bod arwyddion priodol yn cael eu harddangos sy’n weladwy y tu mewn a’r tu allan i’r cerbyd.

10.2 Ni ddylid defnyddio’r systemau TCC i gofnodi sgyrsiau rhwng y cyhoedd gan fod hyn yn ymwthiol ac yn annhebygol o gael ei gyfiawnhau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol iawn. Os yw’n bosibl, ni ddylai’r TCC fod ag unrhyw gyfleuster recordio sain. Ond, os daw’r system gyda chyfleuster recordio sain, dylid diffodd y swyddogaeth hon.

10.3 Mae’n rhaid i’r holl offer gydymffurfio ag unrhyw ofynion deddfwriaethol mewn perthynas â Rheoliadau Adeiladu a Defnyddio Cerbydau Modur.

10.4 Mae’n rhaid i’r holl offer ddiwallu unrhyw, a phob gofyniad mewn perthynas â diogelwch, cymeradwyaeth technegol a chywirdeb gweithredol/data.

10.5 Mae'n rhaid i’r holl offer gael ei gynllunio, ei adeiladu a’i osod mewn modd, a mewn deunydd, sydd ddim yn arwain at unrhyw berygl i deithwyr na’r gyrrwr, gan gynnwys taro’r offer os bydd damwain, neu berygl o ddifrod trydanol trwy fandaliaeth, camddefnyddio, neu draul a gwisgo. Yn benodol, mae’n rhaid gosod y camera(u) yn ddiogel ac yn gadarn mewn modd nad yw’n ymyrryd yn niweidiol ar ardal y teithwyr ac ni ddylai gael effaith ar ddiogelwch y gyrrwr, y teithwyr na defnyddwyr eraill y ffordd.

10.6 Mae’n rhaid gosod pob offer fel y rhagnodwyd gan yr offer a/neu gyfarwyddiadau gosod gwneuthurwr yr offer a/neu’r cerbyd gan drydanwr cerbydau cymwys.

10.7 Ni ddylai’r system TCC wanhau’r strwythur nac unrhyw ran o’r cerbyd nag ymyrryd â chywirdeb offer gwreiddiol y gwneuthurwr.

10.8 Mae’n rhaid gosod pob offer mewn modd nad yw’n cynyddu’r risg o anaf a/neu anghysuro’r gyrrwr a/neu’r teithwyr. Er enghraifft, ni chaniateir dulliau gosod dros dro, fel cwpanau sugno, na goleuadau fel golau is-goch, sydd ar lefel a all dynnu sylw neu achosi niwsans i’r gyrrwr a/neu’r teithwyr.

10.9 Mae’n rhaid i bob offer gael ei ddiogelu rhag yr elfennau, eu cadw rhag ymyrraeth a'u lleoli mewn man sy’n ymyrryd y lleiaf posibl ar ardal y teithiwr neu’r gyrrwr, neu’n cael effaith ar gapasiti cludo bagiau’r cerbyd.

10.10 Mae’n groes i Reoliadau Cerbyd Modur (Adeiladu a Defnyddio) 1986 i offer rwystro'r olygfa o’r ffordd trwy’r ffenestr flaen.

10.11 Ni ddylai offer atal neu ymyrryd â gweithrediad unrhyw un o offer safonol a/neu orfodol y cerbyd, h.y. ddim wedi’i osod ar neu ger bagiau aer/llenni aer neu yn agos at systemau diogelwch atodol eraill a all achosi dirywiad mewn perfformiad neu ymarferoldeb systemau diogelwch o’r fath.

10.12 Mae’n rhaid ffiwsio’r holl wifrau fel y nodwyd ym manyleb technegol y gwneuthurwr a rhaid bod iddynt lwybr priodol.

10.13 Mae’n rhaid i leoliad y camera(u) sydd wedi’u gosod yn y cerbyd fod i bwrpas darparu amgylchedd diogelach er lles gyrrwr a theithwyr y cerbyd hurio preifat, ac nid ar gyfer unrhyw bwrpas arall.

10.14 Mae’n rhaid gwirio’r holl offer yn rheolaidd a’i gynnal i safonau gweithredol, gan gynnwys unrhyw waith trwsio ar ôl cael difrod.

10.15 Dylai holl gydrannau’r system sydd angen eu calibro yn eu lle fod yn hygyrch.

10.16 GOFYNION CYDWEDDOLDEB ELECTROMAGNETEG CERBYDAU (EMC)

10.16.1 Ni ddylai offer TCC ymyrryd ag unrhyw system ddiogelwch, rheoli, trydanol, cyfrifiadurol, mordwyo, lloeren, neu radio yn y cerbyd. Ystyrir unrhyw offer trydanol, fel system TCC mewn cerbyd a osodir ar ôl adeiladu a chofrestru’r cerbyd, yn Is-gydosodiad Trydanol (ESA) dan Gyfarwyddyd Cydweddoldeb Electromagnetig Cerbydau Cymunedol Ewropeaidd ac felly mae’n rhaid bodloni’r gofynion a nodir yn y Cyfarwyddyd hwnnw.

10.16.2 Rhaid i offer TCC fod â marc e neu farc CE. Os yw wedi’i farcio CE, rhaid cael cadarnhad gan wneuthurwr yr offer nad yw’n berthnasol i imiwnedd ac yn addas i’w ddefnyddio mewn cerbydau modur.

10.16.3 Gellir gweithredu'r offer trwy rif a chyfuniad o ddewisadau, fel – switsus drws, oedi amser, botwm panig y gyrrwr neu yn achos recordydd digwyddiad, paramedrau G-Force a bennir yn flaenorol ar un echel neu fwy (h.y. brecio, cyflymu, grymoedd ochrol) ac wedi'u ffurfweddu i recordio am gyfnod byr cyn y digwyddiad, yn ystod y digwyddiad ac am gyfnod byr yn dilyn y digwyddiad.

10.17 Diogelwch Delweddau

10.17.1 Rhaid i'r holl ddelweddau a ddelir gan y system TCC fod yn ddiogel bob amser.

Rhaid diogelu'r delweddau gan ddefnyddio meddalwedd amgryptio sydd wedi'i gynllunio i amddiffyn yn erbyn cyfaddawdu'r data sydd wedi'i storio, er enghraifft, os bydd y cerbyd neu'r offer yn cael ei ddwyn. Argymhellir gan y Comisiynydd Gwybodaeth bod y rheolwr data yn sicrhau bod unrhyw feddalwedd amgryptio a ddefnyddir yn cyrraedd neu'n pasio safon FIPS 140-2 cyfredol neu gyfwerth. Bydd hefyd angen codau mynediad diogelu system i sicrhau diogelwch parhaol.

10.18 Cadw Delweddau TCC

10.18.1 Mae'n rhaid i'r offer TCC a ddewiswyd i'w gosod fod â'r gallu i gadw delweddau, naill ai:

- fewn ei yriant caled ei hun;
- defnyddio dyfais storio symudol wedi'i amgryptio a'i ddiogelu yn briodol, er enghraifft, cerdyn flash compact;
- neu os yw darparwr gwasanaeth yn darparu cyfleusterau storio, eu trosglwyddo yn syth gan ddefnyddio ffôn GPRS GSM wedi'i ddiogelu a'i amgryptio yn briodol, i weinyddwr diogel yng nghanolfan fonitro'r darparwr gwasanaeth.

10.18.2 Ni ddylid lawrlwytho delweddau i unrhyw fath o ddyfais cyfryngau cludadwy (e.e. CD neu ffon gof) i bwrpas eu storio yn gyffredinol y tu allan i'r cerbyd.

10.18.3 Mae'n rhaid i'r system TCC gynnwys swyddogaeth trosysgrifo awtomatig fel bod delweddau ond yn cael eu cadw ar y ddyfais storio a osodwyd am uchafswm o 31 diwrnod

o ddyddiad eu tynnu. Os yw’r darparwr gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i storio delweddau ar weinyddwr diogel, rhaid i’r cyfnod cadw hefyd fod yn uchafswm o 31 diwrnod o ddyddiad eu tynnu. Os yw’n berthnasol, bydd y darpariaethau hyn hefyd yn berthnasol i recordiadau sain.

10.19 Defnyddio gwybodaeth a recordiwyd gan ddefnyddio TCC.

10.19.1 Dylid ond defnyddio delweddau i’r pwrpasau a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

10.19.2 Gall Swyddogion Awdurdodedig yr Adain Drwyddedu, yr Heddlu, neu asiantaethau gorfodi cyfraith statudol, cwmnïau yswiriant/brocerwyr/aseswyr colledion neu gyrff priodol eraill, wneud cais i’r rheolwr data i weld y delweddau a recordiwyd, neu i gael recordiadau sain os yw’n berthnasol. Y deilydd trwydded, fel y rheolwr data, sy’n gyfrifol am ymateb i’r ceisiadau hyn.

10.19.3 Dylai’r Heddlu, Swyddogion Awdurdodedig yr Adain Drwyddedu neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill gynhyrchu ffurflen gais templed safonol, gan nodi’r rhesymau pam fod angen datgelu. Fel arall, gellir derbyn datganiad wedi’i lofnodi. Dylid ond derbyn ceisiadau yn ysgrifenedig, a nodi’r rhesymau pam fod angen datgelu.

10.19.4 Dan Ddeddf Diogelu Data 1998, gall y cyhoedd hefyd wneud cais i ddatgelu delweddau, ond dim ond pan mai nhw eu hunain sy’n destun y recordiad. Gelwir hyn yn ‘gais mynediad i wybodaeth bersonol’.

Rhaid derbyn ceisiadau o’r fath dim ond pan fyddant yn ysgrifenedig ac yn cynnwys tystiolaeth digonol o bwy ydynt (a all gynnwys llun i gadarnhau mai nhw yw’r person yn y recordiad).

10.19.5 Mae gan reolwyr data hefyd hawl i godi ffi am gais mynediad i wybodaeth bersonol (uchafswm o £10 ar hyn o bryd) fel a gyhoeddir yng Nghod Ymarfer TCC y Comisiynydd Gwybodaeth.

10.20 Arwyddion

10.20.1 Mae’n rhaid i bob tacsi a cherbyd hurio preifat gyda TCC arddangos arwyddion yn y cerbyd i nodi bod TCC yn weithredol. Mae’n rhaid i’r arwyddion fod yn weladwy o’r tu mewn a’r tu allan i’r cerbyd. Mae’n rhaid arddangos arwyddion mewn lleoliad sy’n lleihau rhwystro gwelededd a rhaid ei wneud mor amlwg â phosibl i deithwyr cyn ac ar ôl mynd i’r cerbyd.

10.20.2 Yn yr amgylchiadau prin lle bydd recordio sain yn gyfiawn, rhaid i arwyddion ei gwneud yn amlwg bod sain yn cael ei recordio, neu y gall sain gael ei recordio, a rhaid hefyd tynnu sylw’r teithwyr at hyn ar lafar.

10.20.3 Rhaid cynnwys enw a rhif ffôn cyswllt y deilydd trwydded, fel y rheolwr data, ar yr arwydd.

10.20.4 Pan fydd y TCC yn cael ei weithredu mewn ymateb i ddigwyddiad, mae’n rhaid i yrrwr y cerbyd roi gwybod i’r person(au) a recordiwyd bod eu data personol wedi’i recordio – cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad. Dylid hefyd rhoi gwybod iddynt i ba bwrpas y mae’r ddyfais wedi’i gosod, sef diogelwch y gyrrwr a’r teithwyr.

Gofynion Cyfreithiol Eraill - Cofrestru gyda Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae’n rhaid i holl berchnogion camerâu TCC sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a chodau ymarfer a nodwyd gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys cofrestru manylion y system. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth 0303 123 1113 [https://ico.org.uk/about-the-ico/what-we-do/register-of-data-controllers/](https://ico.org.uk/about-the-ico/what-we-do/register-of-data-controllers/)

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 11. AMODAU TRWYDDEDU - GYRWYR CERBYD HACNAI A CHERBYD HURIO PREIFAT

11.1 Bydd y gyrrwr yn:

a) rhoi pob cymorth rhesymol gyda bagiau teithwyr ac ati
b) yn lan a pharchus bob amser, o ran gwisg ac ymddangosiad personol
c) ymddwyn yn gwrtais a moesgar gan gymryd pob gofal rhesymol am ddiogelwch pobl sy’n mynd a dod ac yn cael eu cario yn y Cerbyd Hacni.
d) rhoi derbynneb ysgrifenedig am gost y daith i’r person sy’n llogi’r cerbyd os bydd yn gofyn am un
e) cyrraedd yn brydlon os yw’r person sy’n llogi’r cerbyd neu weithredydd neu berchennog y cerbyd yn gofyn am hynny oni bai bod rheswm da dros oedi.
f) mynd i’r lle y bydd y cerbyd wedi’i logi i fynd iddo ar y ffordd fyrraf sydd ar gael, oni bai bod yr un sy’n llogi’r cerbyd hacni neu gerbyd llogi preifat yn gofyn yn wahanol
g) bod â chopïau o’r amodau hyn ar gael bob amser wrth yrru’r cerbyd i bawb sy’n llogi neu’n cael ei gario yn y cerbyd.
h) ar ôl ei gyflogi, ond cyn dechrau gweithio, rhoi copi o’i drwydded i yrru i weithredydd neu berchennog y cerbyd a’i adael yno nes y daw’r gyflogaeth i ben.
i) hysbysu’r Cyngor mewn ysgrifen o fewn saith diwrnod o unrhyw newid mewn cyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded.
j) rhoi gwybod i’r Cyngor, mewn ysgrifen, fanylion o unrhyw ddedfryd droseddol neu foduro a roddwyd yn ystod y drwydded o fewn saith diwrnod o’i chael.
k) gwisgo’r bathodyn adnabyddiaeth a ddaw gyda’r drwydded fel y bydd yn gwbl amlwg a darllenadwy bob amser wrth weithio’n unol â'r drwydded.
    - efallai y gofynnir am ffotograffau newydd os yw ymddangosiad y gyrrwr yn newid gymaint fel nad yw’r ffotograffau presennol yn ei ddangos fel ag y mae
    - bydd gyrwyr sy’n cyflwyno waledi bathodynnau y gellir eu hail ddefnyddio yn derbyn ad-daliad
    - bydd gyrwyr sydd angen bathodyn arall, am unrhyw reswm, yn gorfod talu ffi
l) os bydd trwydded gyrrwr yn dod i ben, yn cael ei dynnu’n ôl neu’n cael ei atal dros dro, bydd yn rhaid ei ddychwelyd i’r Cyngor gyda’r bathodyn sydd i’w ganlyn

m) rhaid hysbysu'r Cyngor ar unwaith os bydd y gyrrwr yn dioddef o unrhyw anaf neu'n datblygu cyflwr meddygol a allai effeithio ar ei allu i yrru a bydd yn rhaid i'r gyrrwr roi'r gorau i yrru yn ystod y cyfnod y mae tystysgrif feddygol yn datgan nad yw'n ddigon da i wneud hynny. (Dylai gyrwyr gofio bod yn rhaid iddyn nhw hysbysu'r DVLA o gyflyrau meddygoln

n) wrth chwilio am gwsmeriaid mewn Cerbyd Hacni ar stryd dylid:-
   - teithio ar gyflymder rhesymol i un o'r stondinau sydd wedi'u pennu gan is-ddeddf ar gyfer hynny
   - os yw'r stondin honno'n llawn o Gerbydau Hacni, dylid gyrru i stondin arall
   - os nad yw'r stondin honno'n llawn o Gerbydau Hacni, dylid parcio y tu ôl i'r Cerbyd olaf ar y stondin ac wynebu'r un ffordd, a
   - pan fo unrhyw gerbyd o'i flaen yn symud, symud y Cerbyd yn ei flaen i gymryd ei le

11.2 Ni fydd y gyrrwr yn:

a) gwisgo tra'n gweithio fel gyrrwr trwyddedig:- CYFEIRIWCH AT ADRAN 5
b) yn chwarae unrhyw sŵn neu fiwsig yn y cerbyd heb ganiatâd y teithydd, ac eithrio anfon neu dderbyn negeseuon ynghylch rhedeg y cerbyd
c) yn caniatáu neu'n achosi i unrhyw sŵn o radio neu gyfarpar arall yn y cerbyd y mae'n ei yrru fod yn niwsans neu'n boendod i unrhyw berson, y tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd
d) cario neu ganiatáu cario mwy o bobl yn y cerbyd nag sydd wedi'i bennu ar drwydded y cerbyd gan y Cyngor
e) peidio â chario yn y cerbyd unrhyw berson heb ganiatâd y person hwnnw
f) os oes mesurydd tacsi yn y cerbyd, peidio â chuddio neu ddiddymu'r tâl nes bod y teithydd wedi cael amser rhesymol i'w weld ac wedi talu'r tâl (oni bai y rhoddir credyd)
g) Ni fydd perchennog neu yrrwr Cerbyd hacni neu Gerbyd Llogi Preifat yn cuddio'n fwriadol neu'n esgeulus rif trwydded rhag i'r cyhoedd ei gweld pan fydd y Cerbyd ar gael i'w logi ar unrhyw adeg pan mae'r Cerbyd wedi'i drwyddedu.

h) ni fydd perchennog neu yrrwr Cerbyd Hacni yn achosi nac yn caniatáu i Gerbyd fod ar gael i'w logi os yw marciau ei blât trwydded wedi'u difrodi cymaint nes na ellir eu darllen
i) ni fydd perchennog na gyrrwr Cerbyd Hacni'n amharu nac yn caniatáu i unrhyw berson amharu gydag unrhyw fesurydd tacsi sydd ar y Cerbyd, gyda'i ffitiadau na gyda'r sêl sydd arno.
j) ni fydd perchennog neu yrrwr Cerbyd Hacni sy'n aros i gael ei logi'n gweiddi nac yn gwneud unrhyw beth arall i geisio denu cwsmeriaid ac ni fydd yn cyflogi unrhyw un arall i wneud hynny
k) yn gofyn am fwy o arian gan berson sy'n llogi Cerbyd Llogi Preifat nag sydd wedi'i gytuno rhwng y person a'r gweithredwr neu, os oes mesurydd tacsi ar y cerbyd ac nad oes cytundeb ynghylch y tâl, fwy o dâl nag sy'n cael ei ddangos ar y mesurydd.
l) cario unrhyw anifail yn y cerbyd sy'n perthyn neu'n cael ei warchod gan yrrwr neu berchennog y cerbyd (bydd hawl gan y gyrrwr i benderfynu a yw'n fodlon cario unrhyw anifail sy'n perthyn neu'n cael ei warchod gan deithydd ond yn nhu ôl y cerbyd yn unig)
m) gwrthod heb achos digonol Gi Cymorth, Ci Tywys neu Gi Clywed sydd gyda llogwr neu deithiwr arall oni bai bod eithriad meddygol dros hynny.

Mae'n rhaid i yrwyr sydd ag eithriad meddygol rhag cario cŵn fynd drwy broses eithrio, gweler y nodiadau ar ffurflen gais gyrwyr

11.3 Yn union ar ôl i'r cerbyd gael ei logi, neu gynted â phosibl ar ôl hynny, bydd y gyrrwr yn chwilio'n ofalus am eiddo coll a allai fod wedi'i adael ynddo ar ddamwain.

11.4 Os yw'n canfod eiddo o'r fath, mae'n rhaid i'r gyrrwr:-

a) fynd â'r eiddo i swyddfa'r heddlu leol gynted â phosibl, a beth bynnag o fewn 48 awr os nad yw wedi'i hawlio gan neu ar ran y perchennog eisoes, a'i adael yng ngofal y Swyddog ar ddyletswydd ar ôl cael derbynneb am yr eiddo.
b) bydd gan y gyrrwr hawl i dderbyn gan unrhyw berson y rhoddir yr eiddo iddo swm cyfwerth â phum ceiniog yn y bunt o amcangyfrif ei werth (neu'r tâl o ble'i canfuwyd i Swyddfa'r Heddlu, p'run bynnag yw'r mwyaf) ond ddim mwy na phum punt.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 12. COD GWISG AR GYFER GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT

12.1 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i annog delwedd broffesiynol o’r fasnach drwyddedig. Mae'r Cyngor o'r farn y dylai gyrwyr gydymffurfio â lleiafswm safon o ran gwisg, fel y nodir isod, er mwyn:

a) codi a chynnal proffil y fasnach drwyddedig;
b) hyrwyddo hyder y cyhoedd a sicrhau bod teithwyr yn teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig;
c) hyrwyddo diogelwch y cyhoedd trwy sicrhau gweithrediad diogel cerbydau trwyddedig bob amser a sicrhau bod gyrwyr trwyddedig yn hawdd eu hadnabod.
d) amddiffyn y gyrrwr trwyddedig rhag unrhyw gamdriniaeth neu niwed

12.2 Nid yw'r Cyngor yn gosod safonau o'r fath drwy osod amodau ar unrhyw drwydded. Disgwylir, fodd bynnag, y bydd y safonau yn cael eu cynnal ar bob achlysur.

12.3 Defnyddir Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb ar gyfer achosion o dorri'r Cod Gwisg i Yrwyr Trwyddedig.

12.4 Safon Dderbyniol o ran Gwisg fel rhan o’r Cod hwn

a) Topiau
   - Dylai’r holl dopiau orchuddio’r ysgwyddau a’r bol a dylid bod modd eu gwisgo y tu mewn i drowsus / sgert.
   - Gellir gwisgo crysau neu flowsys gyda thei neu â gwddw agored.

b) Sgertiau
   - Dylai sgertiau gyrraedd y pen-glin neu'n is.

c) Esgidiau
   - Dylai esgidiau ffitio o amgylch sawdl y droed.
   - Ni ddylid gwisgo esgidiau sy’n eich atal rhag defnyddio’r rheolyddion troed yn y dull cywir.

12.5 Safon Annerbyniol o ran Gwisg fel rhan o’r Cod hwn

a) Dangos y frest, gan gynnwys topiau ag iddynt doriad isel;
b) Dillad neu esgidiau budr neu wedi'u difrodi;
c) Dillad ac arnynt eiriau, logo neu graffeg a allai dramgwyddo;
d) chwaraeon e.e. topiau pêl-droed, rygbi neu griced neu dracwisg;
e) Dim dillad traeth gan gynnwys esgidiau e.e. fflip-fflops, sandalau, siorts nofio / traeth, dillad nofio ac ati.
f) Dim sodlau uchel
g) Tra bydd teithwyr yn y cerbyd, ni chaniateir gwisgo unrhyw benwisg sy’n cuddio wyneb neu hunaniaeth y gyrrwr trwyddedig yn rhannol neu’n gyfan gwbl e.e. capiau pêl-fas, hetiau gwlanog (ac yn cynnwys topiau â chwfl a ‘hwdis’). Mae penwisg grefyddol neu wisgo penwisg am resymau meddygol wedi’u heithrio (efallai y bydd angen llythyr gan feddyg);
h) Dylai trowsus byr gael eu teilwra ac i'r pen-glin neu’n is (dim trowsus byr denim na throwsus byr chwaraeon)
i) Ni ddylid gwisgo sgertiau byr/mini am resymau diogelwch personol

12.6. Nid yw'r rhestrau uchod yn hollgynhwysfawr a bydd Swyddogion Awdurdodedig y Cyngor yn asesu a yw safonau gwisg yn dderbyniol ai peidio. Mewn achosion o'r fath, bydd penderfyniad y Swyddog fel pe bai wedi ei gynnwys yn y rhestrau uchod a bydd gofyn i'r gyrwyr trwyddedig gydymffurfio yn unol â hynny.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

# Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 13. COD YMDDYGIAD DA AR GYFER GYRWYR TRWYDDEDIG

### 13.1 CYFFREDINOL

13.1.1 I hyrwyddo ei amcanion trwyddedu mewn perthynas â cherbydau hacni a thrwyddedu cerbydau hurio preifat, mae Cyngor Sir Ddinbych yn cynnig mabwysiadu'r Cod Ymddygiad Da a ganlyn y dylid ei ddarllen ar y cyd â'r gofynion statudol a'r gofynion polisi eraill a gynhyrchir gan y Cyngor.

### 13.2 CYFRIFOLDEB I'R FASNACH

13.2.1 Bydd deiliaid trwydded yn ymdrechu i hyrwyddo delwedd y fasnach Gerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat drwy:

a) gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad hwn;
b) cydymffurfio â holl Amodau eu Trwydded, Is-ddeddfau Cerbydau Hacni a Pholisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor;
c) ymddwyn mewn modd cwrtais, anwahaniaethol a chyfrifol ar bob achlysur.

### 13.3 CYFRIFOLDEB I DEITHWYR

13.3.1 Bydd deiliaid trwyddedau:

a) yn cynnal eu cerbydau mewn cyflwr diogel a boddhaol bob amser;
b) yn cadw eu cerbydau'n lân ac yn addas i'w hurio i'r cyhoedd bob amser;
c) yn cyrraedd yn brydlon pan fo cerbyd wedi'i archebu gan rywun ymlaen llaw
d) lle bo angen, yn cynorthwyo teithwyr i fynd i mewn ac allan o gerbydau;
e) yn cynnig cymorth rhesymol i deithwyr gyda'u bagiau ac eiddo personol arall
f) yn darparu derbynebau i deithwyr pan ofynnir amdanynt
g) yn cael dim cyswllt rhywiol ag unrhyw deithiwr a gludir ganddynt, ac ni ddylid ymddwyn yn anweddus yn gorfforol neu ddefnyddio iaith rywiol anweddus ag unrhyw deithiwr
h) yn ymddwyn mewn modd proffesiynol a pharchus bob amser

13.4 CYFRIFOLDEB I BRESWYLWYR

13.4.1 I osgoi bod yn niwsans i breswylwyr wrth godi rhywun neu ddisgwyl am dâl, rhaid i yrrwr:

a) beidio â chanu corn y cerbyd yn anghyfreithlon
b) cadw lefel sain cerddoriaeth/radio mor isel â phosibl
c) diffodd yr injan os oes angen disgwyl
d) cymryd pa gamau bynnag y mae eu hangen i osgoi tarfu ar unrhyw breswylwyr yn y gymdogaeth

13.5 CYFRIFOLDEBAU MEWN SAFLEOEDD TACSI

Bydd deiliaid trwyddedau:

a) Yn disgwyl yn drefnus ac yn symud ar hyd y safle'n ddi-oed ac yn eu trefn
b) Yn aros yn y cerbyd
c) Yn gofalu nad yw eu chwaraewyr cerddoriaeth neu radio yn tarfu ar breswylwyr

13.6 CYFFREDINOL

13.6.1 Bydd gyrwyr:

a) yn rhoi sylw i'w glanweithdra personol a'u gwisg, yn unol â'r cod gwisg, er mwyn cyflwyno delwedd broffesiynol i'r cyhoedd;
b) yn gwisgo'r bathodyn a ddarperir gan y Cyngor bob amser pan yn gyfrifol am gerbyd trwyddedig, gwisgir bathodyn o'r fath mewn lle amlwg lle gellir ei weld yn iawn;
c) yn gwrtais, yn barod eu cymwynas ac yn deg â theithwyr;
d) onid yw'r huriwr yn dweud fel arall, bydd y gyrrwr yn cymryd y ffordd fyrraf bosibl i gyrraedd pen eu taith;
e) yn peidio ag yfed neu fwyta yn y cerbyd heb gydsyniad datganedig yr huriwr;

f) heb gydsyniad datganedig yr huriwr, yn peidio â chwarae unrhyw radio neu offeryn neu offer sy'n cynhyrchu sain yn y cerbyd ar wahân i hynny at ddibenion anfon neu dderbyn negeseuon mewn cysylltiad â gweithredu'r cerbyd;

g) yn gyrru'n ofalus a chydag ystyriaeth briodol o ddefnyddwyr eraill y ffyrdd a cherddwyr ac, yn arbennig, ni ddylent ddefnyddio ffôn symudol â llaw wrth yrru;

h) yn ufuddhau i Orchmynion Rheoli Traffig a chyfarwyddiadau bob amser;

i) yn peidio â chludo mwy o deithwyr mewn cerbyd na'r nifer y'u trwyddedwyd i'w cludo;

j) heb gydsyniad yr huriwr, yn cludo pobl eraill yn y cerbyd;

k) yn peidio ag yfed alcohol yn syth cyn gyrru neu ar unrhyw adeg arall pan yng ngofal cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat;

l) yn peidio â gyrru ar ôl camddefnyddio cyffuriau cyfreithlon neu anghyfreithlon;

m) os oes mesurydd tacsi wedi'i osod ar y cerbyd, ni ddylid canslo neu guddio'r tâl a gofnodwyd hyd nes y bo'r huriwr wedi cael cyfle rhesymol i'w weld ac wedi talu'r ffi;

n) ni fydd perchennog neu yrrwr cerbyd trwyddedig yn fwriadol neu drwy esgeulustod yn achosi neu'n dioddef cuddio rhif trwydded rhag ei weld gan y cyhoedd tra bo'r cerbyd yn aros neu'n disgwyl i gael ei hurio neu ar unrhyw adeg arall tra bo'r cerbyd wedi'i drwyddedu.

o) ni fydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni yn ymyrryd ag unrhyw fesurydd tacsi a ddarparwyd mewn cerbyd, o ran y modd y mae wedi'i osod neu'r sêl a osodwyd arno

p) wrth aros neu ddisgwyl i gael ei hurio, ni ddylai perchennog neu yrrwr Cerbyd Hacni, drwy weiddi neu fel arall, erfyn yn daer ar unrhyw un i hurio cerbyd o'r fath ac ni fydd yn defnyddio gwasanaeth unrhyw un i'r diben hwnnw

q) ni fydd gyrrwr yn mynnu cael, gan unrhyw huriwr Cerbyd Hurio Preifat, tâl sy'n fwy na hynny a gytunwyd ymlaen llaw ar gyfer ei hurio rhwng yr huriwr a'r gweithredwr neu, os gosodwyd mesurydd tacsi yn y cerbyd ac na fu unrhyw gytundeb ymlaen llaw o ran y tâl, y tâl a ddangosir ar y mesurydd tacsi

r) rhaid iddynt barchu Swyddogion awdurdodedig wrth gyflawni eu dyletswyddau arferol

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

NODWCH OS GWELWCH YN DDA:

Mater difrifol iawn yng ngolwg y Cyngor fydd canfod bod gyrrwr wedi yfed alcohol neu gamddefnyddio unrhyw gyffuriau tra'n gyfrifol am gerbyd trwyddedig

MAE YN ERBYN Y GYFRAITH I YSMYGU MEWN CERBYD TRWYDDEDIG AC I GANIATÁU I DEITHWYR YSMYGU MEWN CERBYD TRWYDDEDIG.

## 14. TRELARS – MANYLION AC AMODAU AR GYFER CERBYDAU HURIO PREIFAT YN UNIG

14.1 Caniateir i Gerbydau Hurio Preifat a drwyddedwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i dynnu trelar ar yr amod bod y trelar yn cwrdd â'r manylion ac amodau canlynol:

14.2 MANYLION TRELAR:

14.2.1 Mae’n rhaid i Swyddog Gorfodi Trwyddedu gymeradwyo pob trelar i ddechrau o ran maint a math o adeiladwaith.

14.2.2 Pan fydd cymeradwyaeth gychwynnol yn cael ei roi ac yna bob blwyddyn pan fydd y cerbyd sy'n tynnu yn mynd am Brawf gan y Cyngor. Rhaid i'r profwr / arolygwr dystio bod y trelar yn bodloni'r safonau cyfatebol y byddai eu hangen fel rheol i basio Prawf y Weinyddiaeth Drafnidiaeth (MOT). Mae’n rhaid rhoi stamp dilysu’r garej ar y dystysgrif a ddarparwyd gan yr arolygydd.

14.2.3 Mae’n rhaid i'r bar tynnu gwrdd â'r rheoliadau cymeradwyaeth o ran pob bar tynnu sydd wedi’u gosod ar geir ar ôl mis Awst 1998 a chael eu gosod gan asiant cymeradwy.

14.2.4 Wrth dynnu trelar, mae’n rhaid i gerbydau fod ag allanfa ochr allan ac ochr agosaf cefn, heb gynnwys y drws cefn h.y. car/bws mini pum drws

14.2.5 Mae'n rhaid i'r cerbyd fod o ddyluniad nad yw'n ymyrryd mewn unrhyw ffordd â gweithredu unrhyw allanfeydd argyfwng neu rampiau mynediad i gadeiriau olwyn.

14.2.6 Bydd trelars di-frêc yn llai na 750 KG o bwysau gros

14.2.7 Bydd trelars dros 750 KG o bwysau gros yn brecio trwy weithredu ar o leiaf dwy olwyn ar y ffordd

14.2.8 Bydd mwyafswm hyd y trelar a ganiateir yn 7 metr, gan gynnwys y bar llusgo a chyplydd

14.2.9 Ni fydd lled y trelar yn fwy na'r cerbyd sy'n tynnu yn amodol ar unrhyw un trelar yn lletach na 2.3 metr

14.2.10 Uchafswm hyd i drelars dwy echel brecio yw 5.54 metr

14.2.11 Mae'n rhaid i gorff y trelar gael ei adeiladu naill ai o bren haenog / gwydr ffibr neu ddur galfanedig.

14.2.12 Mae’n rhaid i ffrâm llawn y trelar gael ei wneud o ddur galfanedig gyda bar tynnu syth.

14.2.13 Mae'n rhaid i drelars gael eu cynhyrchu gan wneuthurwr cydnabyddedig a heb eu newid yn strwythurol ers eu cynhyrchu.

14.2.14 Gall trelar gael ei ddefnyddio gan fwy nag un cerbyd tynnu trwyddedig ond mae'n rhaid i bob cerbyd trwyddedig a ddefnyddir i dynnu cerbyd gael ei gymeradwyo ar wahân a thalu ffi trwydded ychwanegol ar gyfer pob cerbyd tynnu

14.2.15 Bydd plât trwydded ychwanegol yn cael ei gyhoeddi gan y Cyngor ar gyfer pob cerbyd Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat trwyddedig i dynnu trelars ac mae’n rhaid i'r plât perthnasol gael ei osod ar gefn y trelar ger y rhif plât pryd bynnag mae trelar a gymeradwywyd yn cael ei dynnu gan y cerbyd trwyddedig.

14.3 AMODAU TRELAR:

14.3.1 Mae'n rhaid i yrrwr y cerbyd sy'n tynnu gynnwys y categori priodol ar eu trwydded yrru DVLA

14.3.2 Rhaid i'r trelar gael ei ddefnyddio ar deithiau a archebwyd ymlaen llaw pan fydd gormod o fagiau yn cael eu cario ac nid ar gyfer defnydd cyffredinol

14.3.3 Mae’n rhaid i yswiriant y cerbyd trwyddedig sy'n tynnu gynnwys tynnu trelar

14.3.4 Bydd y trelar yn cario olwyn sbâr priodol, offer digonol i newid olwyn a theiar sbâr bob amser mae’n cael ei ddefnyddio ar gyfer llogi a thalu

14.3.5 Ni ddylai pwysau ymyl y ffordd y trelar pan mae wedi llwytho fod yn fwy na'r hyn a bennir gan wneuthurwr y cerbyd fel y terfyn pwysau tynnu diogel

14.3.6 Bydd caead addas neu ddull cymeradwy arall ar gyfer cau yn cael ei osod i sicrhau’r cynnwys yn y trelar wrth gael ei ddefnyddio ac i wneud yn siŵr ei fod yn dal dŵr

14.3.7 Mae’n rhaid i'r trelar bob amser gydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaeth Traffig y Ffyrdd yn enwedig y rhai fel y nodir yn y rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Gwneuthuriad a Defnydd) 1986

14.3.8 Ni fydd y trelar yn dangos unrhyw fath o arwyddion neu hysbyseb ar wahân i'r plât trwydded a gyhoeddir gan y Cyngor.

14.3.9 Rhaid rhoi gwybod i’r Cyngor o fewn 72 awr am unrhyw ddiffyg neu ddifrod o unrhyw fath sy'n digwydd ar y trelar.

## 15. POLISI DEFNYDDO BWRIADEDIG AR GYFER CERBYDAU HACNI

### 15.1 CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDED CERBYD HACNI NEWYDD

15.1.1 Bydd disgwyl i ymgeiswyr am drwyddedau newydd ddangos bwriad dilys i gynnig gwasanaeth hurio cerbydau drwy Gyngor Sir Ddinbych dan amodau'r drwydded yr ymgeisir amdani.

15.1.2 Tybir na fydd ymgeiswyr na fyddant yn cydymffurfio'n llwyr neu bron yn llwyr ar gyfer cynnig gwasanaeth hurio gan Gyngor Sir Ddinbych, yn cael trwydded cerbydau hacni i wneud hynny. Penderfynir ar bob cais yn unigol.

15.1.3 Hyd yn oed pan fydd yr ymgeisydd yn dymuno ymgeisio am hawl i gynnig gwasanaeth hurio gan Gyngor Sir Ddinbych pan fydd y rhan fwyaf o'r gwasanaeth i'w gynnig mewn ardal awdurdod arall (ac ymddengys y bydd deddf a diogelwch cyhoeddus yn cael eu tramgwyddo), yna, yn amodol ar rinweddau unigol cais penodol, rhagdybir y bydd y cais yn cael ei wrthod.

### 15.2 CEISIADAU I ADNEWYDDU TRWYDDED CERBYD HACNI

15.2.1 Mae Adran 60 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn rhoi disgresiwn cyffredinol hefyd i'r Cyngor wrthod adnewyddu trwydded am reswm rhesymol ac fe ddefnyddir y polisi bwriadedig hwn hefyd yn yr un modd ar gyfer ceisiadau i adnewyddu. Penderfynir ar bob cais yn unigol.

### 15.3 CEISIADAU I DROSGLWYDDO TRWYDDED CERBYD HACNI

15.3.1 Os caiff y drwydded cerbyd hacni ei throsglwyddo i weithredwr arall yn ystod cyfnod y drwydded, gofynnir i'r gweithredwr newydd hysbysu'r Cyngor a oes bwriad dilys ganddo i gynnig gwasanaeth hurio gyda'r cerbyd drwy Gyngor Sir Ddinbych. Dylai gweithredwyr newydd nodi'r gofyniad dan Adran 73 Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i roi gwybodaeth resymol i swyddog awdurdodedig er diben cynnal ei ddyletswyddau dan y ddeddf. Os na lwyddir i gyflwyno'r wybodaeth a ofynnir amdani, bydd y Cyngor yn ystyried o ddifrif ei hawl i ddefnyddio'i bŵer i atal y drwydded dan adran 60 o Ddeddf 1976, yn ogystal â'i bŵer dan adran 73, hyd nes y derbynnir y wybodaeth.

15.3.2 Disgwylir i berchnogion cerbydau hacni trwyddedig fod â bwriad dilys i gynnig gwasanaeth hurio cerbydau drwy Gyngor Sir Ddinbych dan amodau'r drwydded mewn perthynas â'r cerbyd sy'n cael ei drosglwyddo.

15.3.3 Os gwelir nad oes gan berchennog cerbydau hacni trwyddedig unrhyw fwriad i gynnig gwasanaeth hurio cerbydau drwy Gyngor Sir Ddinbych yn llwyr neu yn bennaf ac/neu yn bwriadu cynnal y busnes mewn ardal awdurdod arall hefyd am gyfran sylweddol o'r amser arall (ac ymddengys y bydd deddf a diogelwch cyhoeddus yn cael eu tramgwyddo), yna, yn amodol ar rinweddau unigol y cais penodol, rhoddir ystyriaeth (wrth adnewyddu neu'n gynharach( i atal neu ddirymu'r drwydded dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Pan fydd perchennog newydd yn cynnig gweithredu ymhell o ardal Cyngor Sir Ddinbych yna tybir y bydd ei drwydded yn cael ei dirymu. Serch hynny penderfynir ar bob cais yn unigol.

15.4 CEISIADAU AM DRWYDDED CERBYD HACNI YN LLE CERBYD ARALL

15.4.1 Pan fydd perchennog yn cael gwared ar hen gerbyd trwyddedig a chael un newydd, bydd ymgeiswyr sy'n ceisio trwydded cerbyd hacni ar yr un newydd yn gorfod gadael i'r Cyngor wybod beth fydd defnydd y cerbyd. Rhagdybir y bydd ymgeiswyr na fyddant yn bwriadu cynnig gwasanaeth hurio'n llwyr neu bron yn llwyr o fewn Cyngor Sir Ddinbych yn cael eu trwydded cerbyd hacni wedi ei gymeradwyo. Hyd yn oed os eu bwriad yw cynnig gwasanaeth hurio cerbydau drwy Gyngor Sir Ddinbych yn llwyr neu yn bennaf ac/neu yn bwriadu cynnal y busnes mewn ardal awdurdod arall hefyd am gyfran sylweddol o'r amser arall (ac ymddengys y bydd deddf a diogelwch cyhoeddus yn cael eu tramgwyddo), yna, yn amodol ar rinweddau unigol y cais penodol, ystyrir y bydd y cais yn cael ei wrthod.

15.4.2 Pan fydd trwydded wedi ei chymeradwyo i ymgeisydd dan yr amodau a fwriedir ar gyfer gwasanaeth hurio o fewn Cyngor Sir Ddinbych, ond gwelir wedi hynny nad yw'n yw'n cynnig y gwasanaeth hwnnw'n llwyr neu'n rhannol yng Nghyngor Sir Ddinbych a bod y rhan fwyaf o'r gwasanaeth i'w gynnig mewn ardal awdurdod arall (ac ymddengys y bydd deddf a diogelwch cyhoeddus yn cael eu tramgwyddo), yna, yn amodol ar rinweddau unigol cais penodol, rhagdybir y bydd y cais yn cael ei ddirymu.

15.4.3 Penderfynir ar bob cais yn unigol. Serch hynny bydd y rhagdybiaethau o ddefnydd bwriadedig i gynnig gwasanaeth hurio yng Nghyngor Sir Ddinbych yn llwyr neu bron yn llwyr yn medru cael eu gwrthbrofi mewn amgylchiadau eithriadol. Tra nad yw hi'n bosibl nac yn ddoeth llunio rhestr o'r hyn a all fod yn amgylchiadau eithriadol, bydd disgwyl i ymgeisydd fydd yn hawlio amgylchiadau eithriadol fodloni'r Cyngor na fyddai'n effeithio ar ddiben y ddeddf nac yn peryglu diogelwch cyhoeddus wrth gymeradwyo'r drwydded, neu ei hadnewyddu, neu ei hatal neu ddirymu yn ddibynnol ar yr achos.

15.5 RHESYMAU AM Y POLISI DEFNYDD BWRIADEDIG

15.5.1 Dymuniad Cyngor Sir Ddinbych yw sicrhau bod holl geisiadau i gymeradwyo trwyddedau cerbydau hacni'n cael eu penderfynu'n unol â'r canllawiau a roddir gan yr Uchel Lys yn ei ddyfarniad, a'r Datganiad a wnaed yn achos Cyngor Dinas Newcastle v Berwick upon Tweed [2008].

15.5.2 Mae'n ofynnol ar y Cyngor hefyd i gofrestru enw perchennog newydd y cerbyd. Ymddengys hefyd i'r Cyngor bod yma lwybr amlwg i geisio gwyrdroi penderfyniad yr Uchel Lys, os na chymerir camau i atal hynny. Y nod yw rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa o fedru ymateb yn gyfrifol i drosglwyddiad cerbyd hacni yng Nghyngor Sir Ddinbych i enw rhywun sy'n gweithredu y tu allan i Gyngor Sir Ddinbych neu ymhell oddi yno.

15.5.3 Os na fu newid ym mwriadau'r perchennog mewn perthynas â chynnig gwasanaeth hurio o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Ddinbych, ni ddylai'r un rheswm dros beidio â chymeradwyo trwydded i'r unigolyn am gerbyd a newidir am un arall. Ar y llaw arall, bydd ymgeisydd a gafodd ei drwydded gyntaf ar sail y bwriad pendant o wasanaethu yn llwyr neu bron yn llwyr o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Ddinbych, ac sydd wrth wneud cais i newid y cerbyd hwnnw am un arall yn datgelu nad yw'n fwriad ganddo wasanaethu felly, yn achosi i'r gymeradwyaeth gael ei gwrthod yn unol â'r cais gwreiddiol a nodir.

# CERBYD HACNAI A HURIO PREIFAT AMODAU TRWYDDEDU

## Diwygiwyd Rhagfyr 2021

## 16. SAFONAU MEDDYGOL I YRWYR (gweithredwyd o 1 Rhagfyr 2023 i ymgeiswyr newydd a 1 Mehefin 2024 ar gyfer deiliaid trwydded presennol

i. Rhaid i'r asesiad meddygol gael ei gynnal gan feddyg teulu'r ymgeisydd neu feddyg teulu arall ym mhractis cofrestredig yr ymgeisydd sy'n gallu cael gafael ar ei holl gofnodion meddygol.

ii. Mewn amgylchiadau eithriadol, a dim ond ar ôl cael caniatâd yr Awdurdod Trwyddedu ymlaen llaw, gall asesiad meddygol gael ei gynnal gan bractis meddygon teulu cofrestredig arall, cyn belled â bod hanes meddygol llawn yr ymgeisydd wedi cael ei weld a'i asesu gan y meddyg teulu hwnnw.

iii. Ar gyfer deiliaid trwydded presennol, yn ystod y cyfnod pontio o safonau meddygol Grŵp 1 i Grŵp 2, gall yr awdurdod trwyddedu ofyn i unrhyw ddeiliad trwydded ddarparu tystiolaeth foddhaol ar ffurf tystysgrif feddygol, sy'n nodi bod deiliad y drwydded yn cyrraedd safonau gofynnol Grŵp 2, os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch ei addasrwydd meddygol.

iv. Os na fydd unigolyn sy'n cyflwyno cais am drwydded, neu am adnewyddu trwydded, yn gallu bodloni'r awdurdod trwyddedu ei fod yn cyrraedd y safon feddygol ofynnol, yna ni fydd yr unigolyn hwnnw yn cael trwydded, ni fydd ei drwydded yn cael ei hadnewyddu neu bydd ei drwydded yn cael ei diddymu.

v. Bydd angen i ymgeiswyr/gyrwyr trwyddedig gael archwiliad meddygol fel a ganlyn:

a) Pan wneir cais ac wrth adnewyddu am y tro cyntaf yn dilyn gweithredu safonau meddygol Grŵp 2 a phob 3 blynedd rhwng 45 oed a 65 oed Grŵp 2 a phob 3 blynedd rhwng 45 oed a 65 oed, h.y. os ydych yn iau na 45 oed ar ôl derbyn neu adnewyddu eich trwydded, ni fydd yn rhaid i chi gael gwiriad meddygol arall nes byddwch yn 45 oed, ond bydd gofyn i chi gael gwiriad bob tair blynedd yn dilyn hynny.

b) Bob blwyddyn pan fo'r gyrrwr yn 65 oed neu'n hŷn

c) Neu unrhyw bryd ar gais yr awdurdod trwyddedu neu ymarferydd meddygol.

vi. Mae’r ffurflen feddygol yn ddilys am 4 mis o’r dyddiad y mae’r meddyg, yr optegydd neu’r optometrydd sy’n cynnal yr archwiliad yn ei llofnodi.

vii. Rhaid i bob deiliad trwydded hysbysu'r awdurdod trwyddedu am unrhyw salwch neu gyflwr sy'n effeithio ar ei allu i yrru.

viii. Yr ymgeisydd/deiliad y drwydded fydd yn talu’r holl gostau sy'n gysylltiedig â chael y dystysgrif feddygol berthnasol.

ix. Bob tro yr adnewyddir y drwydded (bob 3 blynedd) hyd at pan fydd deiliad y drwydded yn 45 oed, bydd rhaid iddynt ddatgan unrhyw faterion meddygol y maent yn ymwybodol ohonynt a allai gael effaith ar eu haddasrwydd i fodloni safonau meddygol Grŵp 2. Mae’n bosibl y bydd unrhyw ddatganiadau meddygol yn gofyn am dystysgrif feddygol Grŵp 2 wrth adnewyddu’r drwydded.